



# Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau  
Allweddol 2 a 3



# Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3

<b>Cynulleidfa</b>	Athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chynrychiolwyr ysgol; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.
<b>Trosolwg</b>	Mae'r llyfryn hwn yn cynnig cymorth sydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer asesiadau athrawon, yn seiliedig ar arfer da cyfredol mewn ysgolion ac AALLau, drwy gynnig ystod o dulliau effeithiol a hwylus y gall athrawon eu defnyddio i sicrhau bod yr asesiadau statudol y maent yn eu llunio ar ddiwedd cyfnod allweddol yn gywir ac yn gyson.
<b>Camau i'w cymryd</b>	I adolygu'r ymagweddau a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir i hybu cysondeb mewn asesiad athrawon gan gymryd i ystyriaeth y trefniadau asesu statudol diwygiedig.
<b>Rhagor o wybodaeth</b>	Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at: Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14 Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru 10fed Llawr, Ty Southgate Wood Street Caerdydd CF10 1EW Ffôn: 0800 083 6003 Ffacs: 029 2037 5496 e-bost:C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk
<b>Copïau ychwanegol</b>	Ar gael gan: Ffôn: 029 20 375427 Ffacs: 029 20375494 Neu drwy ymweld â gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru <a href="http://www.cymru.gov.uk">www.cymru.gov.uk</a>

# Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	4
Aseiad athrawon a gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol	5
Cefnogi a sicrhau aseiad athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3	7
Cysondeb mewn aseiad athrawon	9
Cynllunio gwaith dysgu, addysgu ac asesu	12
Sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau	14
Astudiaethau achos: Safoni o fewn ysgolion unigol	18
Astudiaethau achos: Safoni o fewn grwpiau clwstwr	22
Llunio barn ar ddiwedd cyfnod allweddol	27
Astudiaethau achos: Cymedroli o fewn ysgolion	29
Astudiaethau achos: Cymedroli o fewn grwpiau clwstwr	36
Pontio	41
Monitro a gwerthuso	42
Atodiad 1: Y berthynas rhwng Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, disgrifiadau lefel a chymwysterau	43
Atodiad 2: Y defnydd o brofion sydd wedi'u safoni a'u cyfyngiadau	44
Atodiad 3: Rolau a chyfrifoldebau – gwaith cymedroli o fewn clwstwr	47
Atodiad 4: Deunyddiau cymorth	49
Cydnabyddiaeth	52



## Rhagair

Ym 1995, dosbarthwyd canllawiau ynghylch asesiad athrawon i ysgolion mewn dogfen o'r enw *Cysondeb mewn Asesiad Athrawon* (CAA). Mae nifer o'r negeseuon a gafodd eu cynnwys yn y cyhoeddiad gwreiddiol hwnnw'n parhau i fod yr un mor berthnasol heddiw. Mae'r canllawiau a geir yn y cyhoeddiad newydd hwn yn ailadrodd rhai pwyntiau sylfaenol ac yn cyflwyno gwybodaeth newydd sy'n adlewyrchu arfer da cyfredol mewn ysgolion yng Nghymru.

Bwriad diweddariad 2007 yw cefnogi ysgolion wrth iddyn nhw weithredu diwygiadau i drefniadau asesu, yn dilyn yr ymgynghoriad cenedlaethol ynghylch trefniadau asesu yn y dyfodol a gynhaliwyd rhwng 31 Hydref 2006 a 12 Ionawr 2007. Ceir fersiwn electronig o'r adroddiad ar ganfyddiadau a chanlyniadau'r ymgynghoriad cenedlaethol, sef *Trefniadau asesu yn y dyfodol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*, ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: [www.cymru.gov.uk/ymgyngghoriadau](http://www.cymru.gov.uk/ymgyngghoriadau)

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn electronig ar [www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau)

## Cyflwyniad

Ers cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol a'i drefniadau asesu cysylltiedig, mae'r term 'asesiad athrawon' wedi'i ddefnyddio'n aml i ddisgrifio'r gwaith asesu beunyddiol sy'n digwydd trwy gydol cyfnod allweddol ac i ddisgrifio'r farn mae athrawon yn ei llunio ar ddiwedd cyfnod allweddol; hynny yw:

- asesu parhaus, ffurfiannol – asesu **ar gyfer** dysgu – sy'n canolbwyntio ar gyflawniad dysgwyr a manylion ynghylch sut y gallan nhw symud ymlaen yn hytrach nag ar ddeilliannau a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol
- asesiad statudol athrawon, lle bydd athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'u hasesiadau beunyddiol i lunio a chofnodi'u barn ynghylch cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol. Mewn asesiadau o'r fath, rhoddir pwyslais ar **asesu dysgu** neu waith asesu crynodol.

Derbyniwyd yr angen i ddibynnu llai ar brofion a data sy'n deillio o brofion, a chafodd hynny ei adlewyrchu, o fis Medi 2005 ymlaen, gan drefniadau asesu ac adrodd statudol diwygiedig a oedd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar asesiad athrawon. Mae'r penderfyniad hwnnw'n rhoi pwyslais cynyddol ar ddealltwriaeth a defnydd athrawon o ddisgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig cymorth sydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer asesiad athrawon, sydd wedi'i seilio ar arfer da cyfredol mewn ysgolion ac awdurdodau addysg lleol (AALLau). Mae'n gwneud hynny trwy gynnig ystod o ddulliau effeithiol a hwylus y gall athrawon eu defnyddio i sicrhau bod yr asesiad statudol y maen nhw'n eu llunio ar ddiwedd cyfnod allweddol yn gywir a chyson. Mae'r canllawiau yr un mor berthnasol hefyd i waith asesu mewn addysg grefyddol a phynciau o fewn y cwricwlwm cenedlaethol lle nad yw cael asesiad athrawon ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn ofyniad statudol.

## Asesiad athrawon a gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol

Mae deilliannau a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol wedi'u datblygu fel y gellir cynnal gwaith asesu crynodol o ddysgu ar ddiwedd cyfnod allweddol, hynny yw, **asesu dysgu**. Nid ydynt yn perthyn i gam neu gyfnod allweddol penodol. Yn hytrach, maen nhw'n disgrifio'r mathau a'r ystod o berfformiad y dylai dysgwyr sy'n gweithio ar ddeiliant neu lefel benodol fod yn ei arddangos fel rheol. Maen nhw'n cyfeirio at gyflawniad dysgwr dros gyfnod o amser ac ar draws ystod o waith gan ddarparu darlun cyflawn o nifer o wahanol nodweddion. Mae barn yn cael ei llunio trwy ddadansoddi'r deiliant neu'r lefel sy'n cydfynd orau i'r dysgwr. Mae pob disgrifiad lefel yn cael ei ystyried ar y cyd â'r disgrifiadau a geir ar gyfer deilliannau neu lefelau cyfagos, a'r deiliant neu'r lefel sy'n cael ei ddyfarnu i'r dysgwr yw'r un y mae'r dysgwr yn gadarn ynddo. Mae'n debygol y bydd y dysgwr yn arddangos rhai nodweddion sy'n gysylltiedig â deilliannau neu lefelau cyfagos, ond rhaid i asesiad crynodol ymwneud â'r deiliant neu'r lefel sy'n cydfynd orau i gyflawniad cyffredinol y dysgwr. Nid yw cael israniadau mympwyol o fewn lefel yn rhan o fwriad na defnydd arfaethedig y lefelau.

Ni fydd disgyblion o reidrwydd yn gwneud cynnydd rheolaidd neu linol; efallai y bydd disgyblion yn llithro'n ôl mewn rhai agweddau ar eu gwaith, efallai y byddan nhw'n aros yn eu hunfan am gyfnod, neu efallai y byddan nhw'n gwneud cynnydd sylweddol mewn un neu ragor o agweddau. Fodd bynnag, mae'r disgwyliad cyffredinol y bydd disgybl 'cyffredin' yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn cynyddu un lefel yn y rhan fwyaf o bynciau dros gyfnod o ddwy flynedd yn parhau. Mae hynny'n golygu bod 'dyfarnu lefel' yn rhy fynych i ddisgybl yn wrthgynhyrchiol ac yn aml yn ddiystyr, ac mae'n medru drysu a digalonni disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid hefyd.

Nid yw deilliannau a lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u cynllunio ar gyfer eu defnyddio'n ddyddiol gyda dysgwyr nac ar gyfer cynhyrchu data bob tymor neu hanner tymor, er enghraifft. Ni ddylid dyfarnu lefel i ddarn o waith unigol. Nid yw darn o waith unigol yn gallu darparu asesiad cyffredinol o'r lefel y mae'r dysgwr yn gweithio arni, er y gallai'r darn fod yn dangos nodweddion sy'n perthyn i lefel benodol.

Mae'r berthynas rhwng deilliannau y Cyfnod Sylfaen, deilliannau y cwricwlwm cenedlaethol, disgrifiadau lefel a chymwysterau wedi eu nodi mewn diagram yn Atodiad 1.

Os yw ysgolion yn bwriadu defnyddio profion sydd wedi'u safoni, dylen nhw sicrhau bod y defnydd o brofion ar sail normau, a'u diben, wedi'u hegluro mewn polisi ysgol gyfan cytûn ar asesu, cofnodi ac adrodd. Os ydyn nhw'n cael eu defnyddio, dylai profion sydd wedi'u safoni ategu gweithgareddau asesu eraill a chyfrannu at fonitro cynnydd yn fwy effeithiol ar gyfer unigolion, dosbarth a'r ysgol gyfan. Dylid eu defnyddio, fel y bo'n briodol, i wella ansawdd dysgu ac addysgu. Gellir defnyddio profion safonedig i gynorthwyo asesu **ar gyfer** dysgu yn ogystal ag asesu dysgu.

Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r profion hyn, ar eu pennau eu hunain, i lunio barn diwedd cyfnod allweddol. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd y farn hon yn cael ei llunio gan athrawon drwy ddadansoddi'r canlyniad neu'r lefel sy'n cydfynd orau i'r dysgwr a chyfeirio at gyflawniad y dysgwr dros gyfnod o amser ac ar draws ystod o waith. Mae defnyddiau a chyfyngiadau profion safonedig yn cael eu hystyried yn fyr yn Atodiad 2.



## Cefnogi a sicrhau asesiad athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3

Wedi diddymu'n raddol y profion statudol ar ddiwedd cyfnodau allweddol, amlinellwyd cynlluniau yng nghynigion yr ymgynghoriad ar gyfer ategu ac atgyfnerthu cysondeb a chywirdeb asesiad athrawon. Cafodd y modelau ar gyfer y ddau gyfnod allweddol, fel yr amlinellwyd yn yr ymgynghoriad, eu datblygu ar sail arfer da a oedd eisoes yn bodoli mewn ysgolion ar draws Cymru. Mae'r modelau'n rhannu'r un man cychwyn o safbwynt pwysigrwydd sylfaenol sicrhau cyfathrebu cadarn rhwng athrawon o fewn pob ysgol ac athrawon ar draws ysgolion. Ar gyfer pob pwnc, fel y bo'n briodol i'r cyfnod allweddol, mae'r cyfathrebu hynny'n cynnwys rhoi pwyslais clir ar sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol. Yn eu tro, mae angen i'r systemau a'r gweithdrefnau mewn ysgolion gynnwys cyfleoedd rheolaidd i athrawon ymgymryd â gwaith safoni a chymedroli mewnol, er mwyn sicrhau cywirdeb asesiad athrawon a sicrhau cysondeb parhaus o ran gwaith asesu. Bydd y deunyddiau cyfeirio y bydd ysgolion yn eu defnyddio ar gyfer y cyfarfodydd hyn wedi'u seilio ar samplau o waith disgyblion a sylwebaeth gan athrawon ynghylch y safonau sydd i'w gweld yn y gwaith. Dylai systemau cyfathrebu o'r fath helpu i ategu gwaith addysgu a phrofiadau dysgu o safon uchel ar gyfer pob dysgwr.

Bydd trefniadau ar gyfer asesiad athrawon yn y ddau gyfnod allweddol yn y dyfodol yn datgan y dylai penaethiaid sicrhau bod systemau a gweithdrefnau effeithiol mewn grym i alluogi athrawon i gael cyfleoedd priodol i gyfarfod â'i gilydd, a chytuno, neu gadarnhau dealltwriaeth gyffredin o safonau, ar gyfer y pynciau a'r lefelau cyrhaeddiad sy'n berthnasol i'w gwaith. Bydd y gofynion hynny'n cael sylw manylach yn y llyfrynnau blynyddol *Trefniadau asesu ac adrodd statudol* ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd (Cyfnod Allweddol 3).

Bydd trefniadau ar gyfer ategu ac atgyfnerthu asesiad athrawon yn rhoi sylw arbennig i'r cyfnod pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. O'r flwyddyn ysgol 2008/09 ymlaen, bydd gofyn i ysgolion cynradd ac uwchradd sicrhau bod ganddyn nhw drefniadau effeithiol mewn grym ar gyfer gwaith cymedroli o fewn grwpiau clwstwr. Dylai'r trefniadau asesu fod â chyswllt agos â'r trefniadau pontio sy'n bodoli rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Mae'r trefniadau statudol diwygiedig wedi'u hamseru yn y fath fodd fel eu bod yn cyd-fynd â threfniadau pontio.

Yn achos Cyfnod Allweddol 3, amlinellodd yr ymgynghoriad gynlluniau ar gyfer gwaith cymedroli allanol mewn perthynas â dealltwriaeth adrannau pwnc o safonau, a chynlluniau ar gyfer gwirio'r systemau a'r gweithdrefnau sydd mewn grym mewn ysgolion. Mae'r model ar gyfer achredu asesiad athrawon yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi'i lunio ac wedi'i brofi'n helaeth, trwy gyfrwng y gwaith partneriaeth agos hwn gydag ysgolion ac AALLau, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig gwerth a'i fod yn hawdd i'w ddefnyddio; ac mae gofynion y broses gymedroli allanol o ran tystiolaeth enghreifftiol wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar dystiolaeth a ddewiswyd o weithgareddau ac allbwn arferol disgyblion o fewn ystafell ddsbarth a'r tu allan iddi.

Nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol yn gofyn am drefniadau cymhleth ar gyfer cofnodi asesiadau a chadw tystiolaeth, ac nid oes angen trefniadau o'r fath i fodloni arolygiadau Estyn ychwaith, ond bydd arolygwyr am ystyried i ba raddau y mae'r trefniadau sydd gan ysgolion yn effeithiol, yn hwylus ac yn briodol. Bydd hynny'n cynnwys rhoi ystyriaeth i drefniadau ar gyfer adrodd yn ôl i rieni/gwarcheidwaid.

## Cysondeb mewn asesiad athrawon

Pan mae barn ynghylch dysgwyr unigol yn cael ei llunio ar ddiwedd cyfnod allweddol yn erbyn safonau'r cwricwlwm cenedlaethol, mae cysondeb o ran asesu'n helpu i sicrhau tegwch i ddysgwyr ar draws dosbarthiadau, ysgolion a chyfnodau allweddol. Mae'n rhoi hyder i benaethiaid, llywodraethwyr, athrawon, rhieni/gwarcheidwaid a dysgwyr yn nilysrwydd y farn a lunnir ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr unigol mewn ysgolion.

Mae dulliau effeithiol o sicrhau cysondeb yn gwella gwybodaeth athrawon ac yn cynyddu'u hyder yn eu hasesiadau eu hunain. Maen nhw'n gosod sylfaen ar gyfer meithrin ymddiriedaeth yn y farn sy'n cael ei llunio gan athrawon eraill. Mae hynny yn ei dro yn arwain at fwy o barodrwydd i werthfawrogi asesiadau blaenorol o ddysgwyr ac adeiladu ar yr asesiadau hynny.

### Y prosesau i'w dilyn i sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon

Dylai fod gweithdrefnau a systemau effeithiol ar gyfer **safoni a chymedroli ar ddiwedd y cyfnod allweddol** er mwyn sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon.

Mae'r broses **safoni'n** ymwneud â defnyddio samplau o waith un dysgwr neu samplau o waith dysgwyr gwahanol er mwyn galluogi athrawon i ddod i gytundeb ynghylch lefelau cyrhaeddiad drwy gytuno ar ddealltwriaeth sydd wedi'i rhannu am y nodweddion sy'n perthyn i lefel.

Gellir ystyried y broses safoni'n gam rhagflaenol i'r **broses gymedroli ar ddiwedd cyfnod allweddol**, lle caiff barn ei llunio ynghylch y lefel cyrhaeddiad sy'n cydfynd orau i lefel cyrhaeddiad dysgwr unigol. Mae rhai pynciau sylfaen yng Nghyfnod Allweddol 3 yn cyfuno safoni a chymedroli yn un broses, er enghraifft, addysg gorfforol.

I sicrhau eglurder yn y llyfryn hwn, caiff y deunyddiau sy'n cael eu casglu at ddibenion safoni i helpu athrawon i ddeall disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol eu galw'n **portffolio safoni** a ddefnyddir fel ffynhonnell dystiolaeth gyfeiriol yr ysgol, yr adran neu'r clwstwr.

Roedd sawl ysgol hefyd wedi'i chael hi'n ddefnyddiol i gasglu deunyddiau a gwybodaeth arall sy'n gysylltiedig ag ystod o waith dysgwr unigol, proffil dysgwr. Mae rhain yn cael eu defnyddio at ddibenion enghreifftio i gynorthwyo wrth lunio barn ar ddiwedd cyfnod allweddol, drwy gymedroli. I leihau'r llwyth gwaith, mae llyfrau ysgrifennu'r dysgwr wedi cael eu cynnwys, fel y bo'n briodol. Yn y llyfryn hwn, caiff y deunyddiau hyn eu disgrifio fel **proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol** yr ysgol, yr adran neu'r clwstwr.

## Defnyddio'r llyfryn hwn

Mae'r llyfryn hwn wedi'i fwriadu ar gyfer pob ysgol sydd â disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2 a/neu 3. Dylai ysgolion ddehongli unrhyw gyfeiriadau at ysgolion, adrannau, a staff sydd â rolau arbennig mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hamgylchiadau.

Mae'r dulliau a nodir yn y llyfryn hwn wedi'u seilio ar astudiaethau achos llwyddiannus a gynhaliwyd gan AALLau a'u hysgolion yn ystod 2005–07. Yn ogystal, mae'r dulliau wedi'u seilio ar waith sy'n cael ei wneud i werthuso ystod o ddulliau o hybu cysondeb mewn asesiad athrawon. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r llyfryn *Cysondeb mewn Asesiad Athrawon: Arweiniad i Ysgolion* a gyhoeddwyd gan Awdurdod Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACAC) ym 1995.

Dylai'r arweiniad hwn fod o gymorth i ysgolion a grwpiau clwstwr wrth iddyn nhw ystyried y dulliau a'r gweithdrefnau asesu sydd fwyaf priodol i'w hamgylchiadau nhw yng ngoleuni'r trefniadau asesu statudol diwygiedig. Ysgolion a grwpiau clwstwr ddylai benderfynu ar y prif feysydd y byddan nhw'n canolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Bydd y math o ysgol sydd dan sylw a'i maint, nifer y staff a'r dysgwyr, a threfniadaeth yr ysgol/grŵp clwstwr yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y materion yma. Bydd y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn dibynnu hefyd ar weithdrefnau asesu presennol ysgolion a grwpiau clwstwr. Yn achos ysgolion sydd eisoes wedi sefydlu gweithdrefnau asesu llwyddiannus, gall y llyfryn hwn gadarnhau hynny. Yn achos ysgolion sy'n ystyried adolygu neu ddatblygu'u gweithdrefnau, bydd y llyfryn hwn yn cydnabod y camau sydd wedi'u cymryd eisoes ac yn darparu canllawiau pellach.

Yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cenedlaethol, codwyd nifer o gwestiynau ynghylch yr union fodd y mae trefniadau safoni a chymedroli rhwng ysgolion sy'n rhan o grwpiau clwstwr yn cael eu trefnu a'u monitro. Mae'r canllawiau hyn yn mynd i'r afael â materion o'r fath, ond nid eu bwriad yw i gael eu dilyn yn gaeth. Yn hytrach, bydd y canllawiau yn amlinellu sut y mae clystyrau o ysgolion sy'n bodoli eisoes yn gweithredu trefniadau effeithiol a hwylus, a byddan nhw'n tynnu sylw at y manteision a nodwyd gan yr athrawon. Mae astudiaethau achos a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r agwedd hon wedi'u casglu o waith a gynhaliwyd o fewn AALLau ac ysgolion unigol. Yn ogystal, mae'r canllawiau yn ceisio mynd i'r afael â heriau penodol a allai godi, er enghraifft, mewn ysgolion gwledig bach.

O wanwyn 2008 ymlaen, bydd gan yr ysgolion y gorchmynion a'r fframweithiau cwricwlwm diwygiedig a'r deunyddiau enghreifftio safonau sy'n gysylltiedig â nhw. Gydag amser, dylai'r deunyddiau newydd hyn helpu athrawon, yn unigol ac mewn trafodaethau grŵp, i gadarnhau'u dealltwriaeth a'u defnydd o'r safonau. Lle y bo'n briodol, bydd portffolio safoni a proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol yr ysgol, yr adran neu'r clwstwr yn cael eu diwygio i gyfateb â disgrifiadau lefel a deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig. Bydd y prosesau sy'n cael eu disgrifio yn y llyfryn hwn yn parhau i fod yn gymwys.

# Cynllunio gwaith dysgu, addysgu ac asesu

Mae'r ddogfen *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig* yn canolbwyntio'n fanwl ar faterion sy'n ymwneud â:

- chynllunio dysgu
- dysgu ac addysgu
- asesu dysgu.

Yn yr adran ar asesu dysgu, mae'r ddogfen yn tynnu sylw at gymhariaeth gryno gan y Grŵp Diwygio Asesu (1999) o wahanol fathau o waith asesu:

Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng asesu dysgu at bwrpas dyfarnu graddau a llunio adroddiadau, sydd â threfn wedi'i hen sefydlu, ac asesu ar gyfer dysgu, sydd yn gofyn am flaenoriaethau gwahanol, trefnau newydd ac ymrwymiad newydd.

## Asesu ar gyfer dysgu

Fel y nodwyd eisoes yn y llyfryn hwn, ar gyfer asesu parhaus, ffurfiannol – asesu **ar gyfer** dysgu – rhaid canolbwyntio ar gyflawniad y dysgwyr a manylion ynghylch sut y gallan nhw symud ymlaen yn hytrach nag ar ddeilliannau a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Bydd hyn yn golygu bod y dysgwyr yn dod i ddeall y nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant cysylltiedig er mwyn iddyn nhw allu, gyda chymorth yr athro/athrawes, ddatblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Drwy hyn, gallan nhw sefydlu lle y maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod a symud tuag at dargedau a chydabod os a phryd y maen nhw wedi cyrraedd y targedau. Dylid cysylltu targedau unigol â gwella ansawdd gwaith y dysgwr, fel y gwelwyd mewn adborth ffurfiannol, ac felly eu cysylltu â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid oes modd eu cysylltu'n uniongyrchol â deilliannau neu ddisgrifiadau lefel gan eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad mewn ystod o dasgau ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Os oes disgwyl i ddysgwyr wneud cynnydd, mae angen i athrawon sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o:

- ble y maen nhw wedi cyrraedd ar y continwmm dysgu
- ble y mae angen iddyn nhw anelu ato
- **y dull gorau** o gyrraedd y man hwnnw.

Nid yw'r ddogfen hon yn ymdrin ag asesu **ar gyfer** dysgu. Mae canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ymdrin â'r agwedd hon.<sup>1</sup>

<sup>1</sup> Ceir manylion ynghylch y rhaglen ddatblygu a'i llyfrynau cysylltiedig sef, *Pam y mae angen datblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu a Sut i ddatblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu* ar [www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)

## Asesu dysgu

Mae'r llyfryn hwn yn ymdrin ag **asesu dysgu** a'r prosesau y mae angen eu gweithredu i sefydlu dealltwriaeth gyffredin o ofynion y rhaglen astudio a'r targedau cyrhaeddiad a sefydlu disgwyliadau cyffredin ynghylch perfformiad. Yn benodol, mae'n ymdrin â'r prosesau sy'n gysylltiedig â:

- sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau o fewn ysgolion unigol a grwpiau clwstwr
- galluogi athrawon i lunio barn ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr unigol ar ddiwedd cyfnod allweddol drwy waith cymedroli a wneir o fewn ysgolion a grwpiau clwstwr.

Bydd y broses o weithredu'r dulliau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adrannau canlynol yn fwy effeithiol os bydd y broses honno'n rhan o bolisi ysgol gyfan ar asesu. Bydd polisi o'r fath, sy'n rhoi'r dysgwr yn gyntaf, yn pennu canllawiau clir y cytunwyd arny'n nhw a fydd yn helpu athrawon i gydweithio â'i gilydd a rhannu gwybodaeth, a bydd yn nodi cyfrifoldebau o safbwynt asesu hefyd.

Pan mae athrawon yn cydweithio â'i gilydd i gynllunio gwaith dysgu, addysgu ac asesu, gall arwain at ddealltwriaeth gyffredin o ofynion y rhaglenni astudio a'r targedau cyrhaeddiad a disgwyliadau cyffredin ynghylch perfformiad. Gwaith asesu sydd wedi'i gynllunio ac sy'n rhan annatod o'r cwricwlwm sy'n debygol o ddarparu'r wybodaeth fwyaf defnyddiol ynghylch perfformiad. Bydd hynny yn ei dro yn helpu athrawon i fod yn fwy cyson a hyderus wrth lunio barn ynghylch perfformiad dysgwyr unigol ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Gall athrawon gydweithio â'i gilydd fel a ganlyn mewn perthynas â dysgu, addysgu ac asesu:

- cynllunio ar y cyd ag athrawon eraill yn yr un flwyddyn neu'r un adran, neu gynllunio ar y cyd ar draws blynyddoedd neu gyfnodau allweddol
- defnyddio'r rhaglen(ni) astudio i gytuno ar amcanion ar gyfer dysgu, addysgu ac asesu
- datblygu gweithgareddau cyffredin sy'n canolbwyntio ar amcanion y cytunwyd arny'n nhw
- trafod ac asesu gwaith er mwyn datblygu disgwyliadau cyffredin ynghylch perfformiad, gan gynnwys sesiynau safoni o fewn ysgolion a grwpiau clwstwr
- cymedroli ystod o waith disgyblion unigol o fewn ysgolion a grwpiau clwstwr er mwyn sicrhau bod barn fwy cadarn a chyson yn cael ei llunio ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr unigol ar ddiwedd cyfnod allweddol
- cymharu perfformiad dysgwyr o wahanol ddosbarthiadau mewn gweithgareddau cyffredin.

## Sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau

O'r flwyddyn ysgol 2007/08 ymlaen, bydd gofyn i ysgolion cynradd ac uwchradd weithredu trefniadau mewnol sydd wedi'u seilio ar brosesau safoni a chymedroli er mwyn atgyfnerthu asesiad athrawon.

Yn achos ysgolion uwchradd, mae trefniadau ar gyfer cymedroli tystiolaeth sampl gan adrannau pwnc ysgolion yn allanol yn parhau i gael eu cyflwyno. Yn achos pynciau craidd, mae'r trefniadau hynny'n cynnwys cynnal ymarfer gweithredu cenedlaethol gwirfoddol yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf, sef 2006/07. Bydd gofyn i'r adrannau pynciau craidd sy'n weddill fynd ati yn ystod y flwyddyn ysgol hon, 2007/08 i anfon eu tystiolaeth enghreifftiol i'w chymedroli'n allanol. Yn achos pynciau all-graidd, bydd y cynllun peilot ar gyfer llynedd yn cael ei ddefnyddio i gadarnhau trefniadau manwl ar gyfer y dyfodol gan roi ystyriaeth ofalus i unrhyw faterion sy'n benodol i bynciau arbennig.

### Y ffordd ymlaen

Mae angen i bob athro/athrawes, ac nid yr athrawon hynny sydd â dysgwyr ym Mlynnyddoedd 6 a 9 yn unig, sicrhau bod eu gwaith asesu wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gyffredin o'r nodweddion sy'n perthyn i ddisgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn defnyddio safonau'n gyson wrth lunio barn ynghylch perfformiad pob dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol. Mae'r ysgolion/adrannau sydd wedi'u cynnwys yn yr astudiaethau achos a ddisgrifir isod yn nodi bod hwyluso'r agwedd hon yn hollbwysig, a bod gwneud hynny'n cael effaith wirioneddol ar brofiadau dysgwyr.

Er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o safonau mewn pwnc, dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:

- samplau o waith dysgwyr o ystod o gyd-destunau, sy'n ymwneud â nodweddion disgrifiadau lefel penodol
- barn gyffredinol athrawon ynghylch gwaith dysgwyr unigol

a gellid defnyddio:

- deunyddiau asesu dewisol AADGOS/ACCAC
- deunyddiau enghreifftio APADGOS sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm diwygiedig (sydd wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd).

Mae Atodiad 2 yn rhestru deunyddiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar i hybu cysondeb mewn asesiad athrawon a threfniadau pontio.



Gall y dulliau gweithredu hyn, sy'n cynnwys trafod neu gymharu asesiad athrawon er mwyn sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau (gan gynnwys y nodweddion sy'n perthyn i lefelau), gael eu defnyddio ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod allweddol. Gellir eu rhoi ar waith o fewn ysgol neu adran, neu gallan nhw gael eu defnyddio gan athrawon o ysgolion gwahanol (sydd naill ai'n gweithio o fewn yr un cyfnod allweddol neu'n gweithio ar draws cyfnodau allweddol gwahanol) sy'n cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd. Mae athrawon, yn enwedig y rheini sy'n gweithio mewn adrannau neu ysgolion bach, wedi gweld ei bod yn ddefnyddiol iawn cydweithio ag athrawon mewn ysgolion eraill i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol.

## **Arddangos safonau trwy ffynhonnell dystiolaeth gyfeiriol ysgol, adran neu glwstwr**

Un o ganlyniadau sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau yw'r ffaith bod casgliad o ddeunyddiau'n cael ei ddatblygu gydag amser, sy'n arddangos y safonau y cytunwyd arny'n nhw. Rydym wedi galw'r casgliad hwn o ddeunyddiau yn gynharach yn y llyfryn hwn yn **bortffolio safoni** ysgol, adran neu glwstwr, sy'n dangos dealltwriaeth a defnydd athrawon o ddisgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Mae'r deunyddiau hynny'n cynnwys samplau o waith dysgwyr ynghyd â sylwebaeth a nodiadau cryno sy'n dangos sut y mae'r samplau'n adlewyrchu safonau cenedlaethol. Gallai'r deunyddiau gynnwys tystiolaeth ehangach hefyd megis ffotograffau, fideos a chofnodion ysgrifenedig gan athrawon, yn enwedig yn achos dysgwyr nad ydynt efallai'n gwneud gwaith ysgrifenedig.

Dylid nodi y gall samplau unigol o waith arddangos nodweddion sy'n perthyn i lefel benodol ond, fel y soniwyd eisoes, ni ddylid dyfarnu 'lefel' i'r samplau unigol hynny.

Gall portffolio safoni ysgol, adran neu glwstwr fod yn bwynt cyfeirio ar gyfer pob athro/athrawes, yn ystod cyfnod allweddol ac wrth lunio barn ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr unigol ar ddiwedd cyfnod allweddol. Mae ffynhonnell o'r fath yn golygu nad oes pwysau ar athrawon unigol i baratoi'u casgliad eu hunain o waith i ategu'u barn ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr unigol. Yn ogystal, gellir defnyddio'r ffynhonnell fel cyfrwng addas i drafod safonau a'u henghreffftio ar gyfer athrawon sy'n newydd i'r ysgol, ymwelwyr, arolygwyr ac ysgolion eraill. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, mae'n ffurfio'r sail i ddewis deunyddiau ar gyfer cymedroli allanol.

Darperir rhestr wirio ar gyfer datblygu portffolio safoni ysgol, adran neu glwstwr ar y dudalen nesaf.

## Rhestr wirio i'w hystyried wrth gynllunio a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd a gynhelir gan ysgolion, adrannau neu grwpiau clwstwr i ddatblygu portffolio safoni

Rôl y staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwy fydd yn arwain/cydlynu'r gwaith?</li> <li>• Pwy fydd yn ymwneud â datblygu'r dystiolaeth sampl?</li> <li>• Sut y bydd yr ysgol/adran yn sicrhau bod y dystiolaeth sampl yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin yr athrawon yn yr ysgol neu'r adran.</li> </ul>
Cynnwys	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa bynciau fydd yn cael eu cynnwys?</li> <li>• Pa grŵp/iau blwyddyn fydd yn cael ei gynrychioli ei/eu cynrychioli?</li> <li>• Pa ystod o lefelau fydd yn cael ei chynnwys?</li> </ul>
Amserlen ar gyfer datblygu ac adolygu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth yw'r amserlen ar gyfer datblygu?</li> <li>• Pa mor aml/sut y bydd y deunyddiau cyfeirio'n cael eu diweddarau?</li> </ul>
Ystod a natur y deunydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Faint o ddeunydd fydd yn cael ei ddefnyddio? <ul style="list-style-type: none"> <li>- Tystiolaeth sampl gan ddysgwyr amrywiol</li> <li>- Detholiad o ystod o dasgau</li> <li>- Pa fathau o ddeunydd fydd yn cael eu defnyddio? Er enghraifft, ai tystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth sain/fideo?</li> </ul> </li> </ul>
Y math o sylwebaeth a'i hyd a'i lled	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwy yw'r gynulleidfa/Beth yw'r rhesymeg?</li> <li>• Faint o sylwebaeth/nodiadau a pha fath o sylwebaeth/nodiadau sydd eu hangen? e.e, ydyn nhw'n darparu: <ul style="list-style-type: none"> <li>- cyd-destun ar gyfer y gwaith?</li> <li>- esboniad byr ynghylch pam y mae darn o waith yn arddangos y nodweddion sy'n perthyn i lefel benodol?</li> </ul> </li> </ul>
Gwybodaeth gynhaliol arall	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa eitemau eraill y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys? e.e, <ul style="list-style-type: none"> <li>- crynodeb o gynllun datblygu, lle bo hynny'n berthnasol?</li> <li>- enghreifftiau o weithgareddau asesu?</li> </ul> </li> <li>• Yng Nghyfnod Allweddol 3, oes cymedrolwyr/gwirwyr allanol wedi gweld y gwaith?</li> </ul>

Sicrhau cysondeb mewn  
asesiad athrawon  
Canllawiau ar gyfer  
Cyfnodau Allweddol 2 a 3

## Enghreifftiau o ddulliau ar gyfer datblygu portffolio safoni

Mewn ysgol gynradd neu ysgol arbennig, efallai y bydd y gwaith yn cael ei arwain gan ddirprwy bennaeth neu gydlynnydd asesu. Dylai holl athrawon yr ysgol gael eu cynnwys yn y broses o drafod gwaith disgyblion ac ystyried deunyddiau enghreifftio.

Mewn ysgol uwchradd, efallai y bydd y gwaith yn cael ei arwain gan bennaeth adran neu gyfadran neu gydlynnydd asesu. Dylai holl staff yr adran gael eu cynnwys yn y broses o drafod gwaith dysgwyr ac ystyried deunyddiau enghreifftio.

Gallai'r portffolio safoni mewn ysgol gynnwys deunyddiau sy'n ymwneud â'r holl dargedau cyrhaeddiad a'r ystod o lefelau sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn y pynciau craidd a'r pynciau all-graidd. Yn achos pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 3, mae'n ofynnol cael ffynhonnell gyfeirio erbyn 2007/08. Mae ysgolion/ adrannau'n nodi bod treulio amser ar yr agwedd hon yn llawer mwy cynhyrchiol na dyfarnu lefel i ddysgwyr yn rheolaidd yn ystod y tymor.

Efallai y bydd cynllun datblygu'n cael ei lunio â blaenoriaethau cychwynnol; bydd hynny'n dibynnu ar y gwaith y mae'r ysgol/adran wedi'i wneud yn flaenrol i ddatblygu portffolio safoni. Gallai adolygiad (yn flynyddol, o bosibl) olygu bod enghreifftiau gwell neu ddiweddarach yn cael eu rhoi yn lle enghreifftiau sy'n cael eu tynnu allan. Mae arfer da yn cynnwys sicrhau bod athrawon yn cael cyfle/sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus i drafod safonau a sefydlu dealltwriaeth gyffredin ohonyn nhw.

Bydd natur wahanol y pynciau a'r targedau cyrhaeddiad yn dylanwadu ar y deunyddiau a allai gael eu cynnwys. Gellir cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o ddeunyddiau, er enghraifft:

- gwaith ysgrifenedig y dysgwyr (wedi'i ysgrifennu â llaw neu wedi'i baratoi ar brosesydd geiriau, neu ddetholiadau o waith o'r fath), arteffactau, ffotograffau, neu dystiolaeth sain neu fideo o berfformiad/cyrhaeddiad
- log neu gofnodion hunanasesu'r dysgwyr, sydd wedi'u dilysu gan eu hathrawon
- darnau allan o gofnodion, llyfrau marcio, neu nodiadau athrawon ynghylch tystiolaeth dros dro, tystiolaeth ymarferol, tystiolaeth weledol neu dystiolaeth arall, yn dibynnu ar y pwnc ac anghenion y dysgwr/lefel datblygiad.

Bydd y deunyddiau'n gasgliadau o waith gan ddysgwyr gwahanol, a bydd y casgliadau hynny gyda'i gilydd yn helpu athrawon i ddeall disgwyliadau mewn perthynas â tharged cyrhaeddiad penodol.

Gallai sylwebaeth gynnwys:

- datganiadau sy'n rhoi cyd-destun neu ffocws ar gyfer samplau o waith
- nodiadau i ddangos y nodweddion perfformiad y cytunwyd arnyn nhw mewn darnau o waith
- crynodeb sy'n dangos sut y mae casgliad o waith yn dangos nodweddion lefel benodol.

Mae rhai portffolios safoni ysgolion neu adrannau yn cynnwys taflen gynnwys ynghyd â chrynodeb byr o'r strategaethau a'r amserlenni ar gyfer datblygu ac adolygu'r dystiolaeth.

## Astudiaethau achos: Safoni o fewn ysgolion unigol

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau ar gyfer sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol o fewn ysgolion unigol fel y gellir defnyddio'r safonau hynny'n gyson wrth lunio barn ynghylch perfformiad pob dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Yn gyffredinol, mae'r broses hon yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus mewn ysgolion.

Cafodd yr astudiaethau achos eu datblygu a cafodd y gweithgareddau eu treialu ar lefel leol, a oedd yn golygu bod ysgolion ac AALLau yn cydweithio â'i gilydd ar brydiau. Mae pob astudiaeth achos yn diffinio ffocws yr astudiaeth, y broses a roddwyd ar waith a'r deilliannau.

**Astudiaeth achos 1:** Ffocws ar ysgrifennu yn Gymraeg/Saesneg, gan ddefnyddio gwaith enghreifftio a ddatblygwyd gan AALL o'r Blynyddoedd Cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 3

**Astudiaeth achos 2:** Ffocws ar iaith a sgiliau cyfathrebu a datblygiad mathemategol mewn ysgol arbennig

# 1 Astudiaeth achos

Ffocws ar ysgrifennu yn Gymraeg/Saesneg, gan ddefnyddio gwaith enghreifftio a ddatblygwyd gan AALL o'r Blynyddoedd Cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 3

## Y broses

Mae AALL wedi datblygu ffeil o'r enw *Cynnydd mewn Dysgu – Cynnydd wrth ysgrifennu yn Gymraeg/Saesneg o'r Blynyddoedd Cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 3*. Mae'r ffeil yn cyflwyno enghreifftiau o waith ysgrifennu dysgwyr o'r blynyddoedd cynnar trwy'r cyfnod mewn ysgol gynradd hyd at Gyfnod Allweddol 3. Mae'r enghreifftiau hynny wedi'u cysylltu â sylwebaeth sy'n amlygu nodweddion lefelau o wahanol genres. Mae'r canllawiau a ddarparwyd gan ACAC i ddibenion safoni wedi llywio'r broses. Mae'n dangos y math o gynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud wrth iddyn nhw ddatblygu'n ysgrifenydd, ac mae'n cynnig canllawiau ynghylch y dulliau posibl o asesu'r gwaith a'r camau y bydd angen eu cymryd i wella.

Defnyddiwyd y deunyddiau gan:

- athrawon unigol a oedd am gael trosolwg o gynnydd, a dod i ddealltwriaeth o safonau
- grwpiau o athrawon a oedd yn gweithio gyda grŵp oedran penodol, ac a oedd am gael trosolwg o gynnydd a rhannu dealltwriaeth safonau a chymharu'r enghreifftiau â gwaith a gynhyrchwyd gan eu dysgwyr eu hunain.

## Deilliannau

Bu'r portffolio safoni o gymorth i roi gwybodaeth i athrawon a oedd yn gweithio mewn cyfnodau addysg neu leoliadau gwahanol am y cyfnodau datblygu a'r lefelau sgiliau yr oedd disgyblion yn eu harddangos cyn neu ar ôl gadael dosbarth neu grŵp penodol. Bu'n fodd i hwyluso'r broses safoni o fewn ysgolion unigol.

# 2 Astudiaeth achos

## Ffocws ar iaith a sgiliau cyfathrebu a datblygiad mathemategol mewn ysgol arbennig

### Cefndir

O fewn ysgol arbennig pob oedran sy'n ateb anghenion 85 o ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu difrifol/dwys a lluosog, cynhelir asesiadau yn flynyddol trwy ddefnyddio PIVATS<sup>2</sup> (cyhoeddwyd gan AALI Swydd Gaerhirfryn). Bydd asesu crynodol yn cynnwys defnyddio deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol yn dilyn eu cyflwyniad yn 2008/09, ond bydd y broses safoni, sy'n cael ei disgrifio isod, yn parhau yr un fath.

Oherwydd pryder ynghylch y gwahaniaeth wrth lunio barn graddfa P, o fewn a rhwng ysgolion lleol, cynhaliwyd diwrnod safoni gyda holl staff yr ysgol arbennig a staff o naw uned yn bresennol, ynghyd â chynrychiolwyr o wasanaeth Nam ar y Clyw yr AALI a'r gwasanaeth cyswllt cyn ysgol.

### Y broses

Roedd yr ysgol arbennig wedi ceisio safoni ei barnau PIVATS cyn hyn trwy ddefnyddio cynllun asesu Graddfa P arall, a gyhoeddwyd yn fasnachol. Roedd hyn heb lwyddo oherwydd bod y deunyddiau eraill yn dibynnu ar gwblhau tasgau annibynnol i ategu cyflawniad ar bob lefel. Yn aml, nid oedd y tasgau hyn yn cydfynd â barnau 'cyd-fynd orau' yr athrawon ac roedd trafodaethau ymysg y rhai oedd yn gweithio gyda'r dysgwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd wedi profi'n fwy gwerthfawr.

Yn dilyn mewnbwn ynghylch y defnydd effeithiol o raddfeydd P a'r angen am safoni, roedd staff (mewn grwpiau) wedi ystyried samplau o waith y dysgwyr. Cafodd y gwaith ei gymryd o ystod o gyd-destunau a heb ei labelu. Cyfeiriwyd hefyd at rai deunyddiau enghreifftio cyhoeddedig a oedd yn rhoi enghreifftiau o waith ar wahanol lefelau P.

<sup>2</sup> Dangosyddion perfformiad ar gyfer gosod targedau sy'n ychwanegu gwerth – cynllun sy'n ymestyn y graddfeydd P.

Aeth staff ati i drafod y samplau gwaith gan ddod i ddealltwriaeth gyffredin o nodweddion y gwahanol lefelau P. Drwy wneud hyn, roedden nhw'n sicrhau y byddai'r safonau'n cael eu defnyddio'n gyson pan fyddai staff yn llunio eu barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol. Roedd staff hefyd wedi edrych yn feirniadol ar effeithiolrwydd unrhyw sylwadau ar y gwaith. Roedd hyn wedi bod yn ffocws gwaith diweddar yn yr ysgol arbennig. I ddysgwyr ar P1–4, roedd y dystiolaeth ar ffurf fideo, ffotograffau a sylwadau athrawon yn bennaf, ond i ddysgwyr a oedd yn gweithio ar lefel uwch na P4, roedd samplau gwaith gyda nodiadau ychwanegol.

## Deilliannau

Roedd y diwrnod wedi darparu datblygiad proffesiynol gwerthfawr i'r staff. Yn arbennig, roedd y manteision yn cynnwys:

- gwella sgiliau asesu athrawon a'u hyder o ran deall nodweddion graddfeydd P
- cynyddu dealltwriaeth athrawon o'r broses safoni
- codi ymwybyddiaeth o'r angen i ysgrifennu sylwadau llawn gwybodaeth yn hytrach na sylwadau disgrifiadol ar waith y dysgwyr, gan ddarparu sail resymegol briodol
- portffolio safoni wedi'i ddiweddarau i'r ysgol.

Yn dilyn yr ymarfer safoni, nodwyd yr agweddau canlynol i'w datblygu yn y dyfodol:

- Gwaith pellach ar ddefnyddio fideo i ddisgyblion sy'n gweithio ar lefelau cynharach ac ar y Map Llwybrau Ar Drywydd Dysgu.
- Cynnal sesiynau yn y dyfodol i ganolbwyntio ar gymedroli llunio barn 'cydfynd orau' ar ddiwedd cyfnod allweddol, trwy edrych ar samplau o waith dysgwyr unigol dros gyfnod ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau.
- Datblygu rhestr termau i helpu staff i lunio barn gyson ar ddiwedd cyfnod allweddol, lle y gall fod lefelau amrywiol o gymorth i ddisgyblion ar gyfer rhai gweithgareddau. Rhaid ystyried cymorth o'r fath wrth gymedroli, oherwydd gall 'ysgogiadau' neu gymorth 'cymhellol' amrywio'n fawr, o fewn dosbarthiadau a sefydliadau.

## Astudiaethau achos: Safoni o fewn grwpiau clwstwr

Mae'r adran hon hefyd yn darparu canllawiau ynghylch sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau'r cwricwlwm cenedlaethol fel y gellir eu defnyddio'n gyson wrth lunio barn ynghylch perfformiad pob dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, ond y tro hwn o fewn grwpiau clwstwr sy'n cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd.

Rhaid cynllunio a pharatoi'n ofalus i sicrhau bod y gwaith a wneir gydag ysgolion eraill yn fuddiol a bod defnydd da'n cael ei wneud o amser ac adnoddau. Yn benodol, mae angen i ysgolion sy'n dechrau ar y broses hon ddod i gytundeb ynghylch y meysydd allweddol canlynol:

- Paratodau/gwell ymwybyddiaeth mewn ysgolion cyn cyfarfodydd y clwstwr.
- Trefniadau gweinyddol y clwstwr.
- Natur gwaith y disgyblion a fydd yn cael ei safoni.
- Y meini prawf asesu a fydd yn cael eu defnyddio.
- Y trefniadau ar gyfer sicrhau bod pob ysgol sy'n rhan o'r clwstwr yn cyfrannu samplau.
- Y broses a gaiff ei dilyn yn ystod y diwrnod(au) safoni, gan gynnwys agenda.
- Y broses ar gyfer adolygu a chrynhoi'r prif ganfyddiadau.
- Y dull ar gyfer cytuno ar drefniadau yn y dyfodol, a chynllun gweithredu y cytunir arno.
- Strategaethau effeithiol ar gyfer sicrhau bod y camau gweithredu y cytunwyd arnyn nhw'n cael eu cymryd o fewn ysgolion unigol.
- Systemau effeithiol ar gyfer adrodd yn ôl i gydweithwyr ar ôl cyfarfodydd y clwstwr.

Mae profiad wedi dangos bod athrawon o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n mynychu cyfarfodydd safoni a gynhelir gan glwstwr wedi gweld bod y sesiynau'n ysgogol o safbwynt proffesiynol. Maen nhw wedi helpu i ddatblygu cysondeb mewn asesiad athrawon a chodi disgwyliaid ynghylch cyrhaeddiad disgyblion.

Mae'n bwysig sicrhau bod y trefniadau ar gyfer sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau'n ymarferol a hwylus. Dylid rhoi ystyriaeth unwaith eto i'r pwyntiau y tynnwyd sylw atyn nhw ar dudalen 16.

**Astudiaeth achos 3:** Ffocws ar bynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

**Astudiaeth achos 4:** Ffocws ar Saesneg (Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu)

**Astudiaeth achos 5:** Ffocws ar Saesneg (Darllen Lefelau 3–5)



# 3 Astudiaeth achos

Ffocws ar y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

## Y broses

Aeth pedwar grŵp clwstwr gwahanol (a oedd yn cynnwys pedair ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd cysylltiedig) ati i weithio drwy'r prosesau angenrheidiol ar gyfer cynnal digwyddiad safoni effeithiol ar draws Cyfnod Allweddol 2/3, a hynny fel gweithgaredd datblygiad proffesiynol. Roedd yr ysgolion wedi'u lleoli mewn amrywiaeth eang o ardaloedd, ac roedden nhw'n cynnwys grŵp clwstwr cyfrwng Cymraeg. Cymerodd cyfanswm o 19 o ysgolion ran yn y gweithgaredd.

Cydlynwyd y prosiect gan ymgynghorydd AALI ac athro ymgynghorol a oedd â chyfrifoldeb penodol am asesu o fewn y cyfnod cynradd. Roedd tri o'r pedwar grŵp clwstwr yn ymwneud â'r ymgynghorydd pwnc penodol a oedd yn ymgynghorydd cyswllt penodedig. Roedd y trefniant hwn o gymorth wrth gynllunio a threfnu'r cyfarfodydd.

Roedd dau athro o bob ysgol gynradd (sef athro Blwyddyn 6 a'r arweinydd pwnc neu'r cydlynnydd asesu fel rheol) a phennaeth adran y pwnc neu un o athrawon Cyfnod Allweddol 3 o'r ysgol uwchradd yn bresennol ym mhob cyfarfod safoni. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu harwain gan un o athrawon ymgynghorol yr AALI.

Roedd yr amserlen ar gyfer y broses gyfan yn ymestyn dros gyfnod o dri mis, ac roedd y broses yn cynnwys y camau canlynol:

- Cynnal cyfarfod clwstwr cychwynnol (ar ôl ysgol) i drafod y ffordd ymlaen.
- Cael yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan i anfon enghreifftiau o waith dysgwyr at y tîm ymgynghori.
- Sicrhau bod y staff ymgynghorol yn casglu samplau o waith dysgwyr ac yn eu hanfon yn ôl i'r ysgolion.
- Cynnal diwrnod cymedroli o fewn yr ysgolion gyda staff cyflenwi'n cael eu trefnu ar gyfer dau athro am gyfnod o hanner diwrnod.
- Cynnal diwrnod cymedroli penodedig (gyda staff cyflenwi'n cael eu trefnu ar gyfer pob athro).

Canolbwyntiodd y grwpiau clwstwr unigol ar y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Roedd y modelau safoni'n amrywio ar draws y pynciau. Roedd y modelau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cymraeg a Saesneg wedi'u seilio ar yr enghreifftiau o waith dysgwyr a gyflwynwyd gan ysgolion unigol ac a oedd yn cwmpasu Lefel 2 i Lefel 5. Roedd y gwaith hwn wedi'i gymryd o ffolderi neu lyfrau dosbarth y dysgwyr. Yn ogystal â darllen ac ysgrifennu, cytunodd y grŵp Cymraeg i ddefnyddio'r deunyddiau tasg dewisol ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 2 (2005) i safoni barn athrawon am lafared.

Roedd y modelau a ddefnyddiwyd ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth yn wahanol am fod y grwpiau clwstwr wedi cytuno y byddai disgyblion ym Mlynnyddoedd 5, 6 a 7 yn ymgymryd â thasgau penodol a oedd yn perthyn i'r Deunyddiau Asesu Dewisol a ddatblygwyd yn flaenorol gan ACCAC. Roedd yr unedau yr oedd disgwyl i'r disgyblion ymgymryd â nhw wedi'u dewis ymlaen llaw yng nghyfarfodydd cychwynnol y grwpiau clwstwr.

Casglodd yr AALI becyn o waith gan ddysgwyr ar gyfer pob pwnc, ac anfonwyd y pecyn i bob ysgol yn y clwstwr. Cyfarfu dau athro/athrawes ym mhob ysgol â'i gilydd cyn cyfarfod y grŵp clwstwr i gytuno ar nodweddion lefel ar gyfer pob eitem o waith.

Yn ystod y cyfarfodydd, bu'r grwpiau clwstwr yn trafod nodweddion lefel pob sampl o waith yng ngoleuni'r hyn yr oedd yr athrawon wedi'i benderfynu'n flaenorol. Yn benodol, roedden nhw'n trafod unrhyw wahaniaethau a oedd yn dod i'r amlwg. Yn ystod y cyfarfod, byddai grŵp clwstwr yn cytuno ar nodweddion lefel ar gyfer pob darn o waith ac yn darparu nodiadau i gyfiawnhau ei benderfyniadau.

## Deilliannau

- Rhoddwyd cyngor cadarn ac ymarferol i glystyrau o ysgolion ar sut i drefnu'r math hwn o weithgaredd drostyn nhw eu hunain.
- Anfonodd yr AALI adroddiad cryno i bob clwstwr, a oedd yn nodi'r nodweddion lefel y cytunwyd arny'n nhw ar gyfer pob darn o waith ynghyd â nodiadau i gyfiawnhau'r penderfyniadau a wnaed.
- Ar ôl casglu samplau o waith gan yr ysgolion a oedd yn cymryd rhan, cyhoeddodd yr AALI y samplau fel enghreifftiau er mwyn darparu deunyddiau meincnodi y gallai ysgolion eu defnyddio ar y cyd â'u portffolio safoni eu hunain. Darparwyd ffurflenni safonol ar gofbin hefyd.
- Trefnwyd bod yr holl benaethiaid yn cael cyflwyniad ar y model uchod, a chafodd cydlynwyr CA2/3 sesiwn datblygiad proffesiynol parhaus a barodd am hanner diwrnod.

# 4 Astudiaeth achos

## Ffocws ar Saesneg (Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu)

### Y broses

Daeth cynrychiolydd o bob ysgol uwchradd yn yr AALI (gan gynnwys cynrychiolydd o ysgol arbennig) i'r cyfarfodydd yn ogystal â deg o athrawon Blwyddyn 6 a/neu gydlynwyr asesu a oedd wedi dangos ymrwymiad i'r prosiect.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod, a daeth pob aelod o'r grŵp â detholiad o waith dysgwyr gyda nhw i'w safoni. Nodwyd gwahanol *genres* ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod yr holl ystod yn cael sylw. Yn ogystal, gofynnwyd i'r aelodau ddarparu samplau ar draws yr ystod o Lefel 3 i Lefel 7.

Aeth y grŵp ati i asesu'r holl ddarnau o waith a ddarparwyd, a dewiswyd y darnau hynny y dylid eu cyflwyno a oedd yn arddangos nodweddion gwahanol lefelau mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu. Cafodd tasgau llafaredd eu cyflwyno trwy rannu cofnodion a roddai ddisgrifiad byr o'r dasg a rhannu datganiadau a nodai'r hyn y gallai'r dysgwyr ei wneud, er mwyn dangos sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud.

Yn ogystal, nodwyd rhai tasgau enghreifftiol a oedd yn amlinellu arfer da ac a oedd yn dangos unedau gwaith a oedd yn adlewyrchu gweithdrefnau asesu cadarn ac effeithiol.

### Deilliannau

- Cafodd portffolio safoni, a oedd yn arddangos nodweddion gwahanol lefelau mewn Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu, eu cyflwyno i'r holl ysgolion Cyfnod Allweddol 2/3 yn yr AALI.
- Darparwyd canllawiau hefyd ar gyfer gweithdrefnau safoni effeithiol a hwylus.

### Y broses

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi cychwynnol ar gyfer tri chlwstwr. Diben y sesiwn hanner diwrnod oedd trafod y broses o ddefnyddio a dewis deunyddiau a fyddai'n sail ar gyfer tasg trawsgyfnod gyffredin i helpu i ddod i gytundeb ynghylch safonau mewn perthynas â Darllen. Gosodwyd y dasg i ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 6 a 7, a daeth yr athrawon â detholiad o'r hyn a gyflawnwyd gan ddysgwyr i'r sesiwn safoni.

Roedd y dasg wedi'i seilio ar weithgaredd darllen a deall: testun ffuglen neu destun ffeithiol â chwestiynau i'w hateb yn ysgrifenedig. Mabwysiadwyd y dull gweithredu hwn am ei fod yn golygu bod llai o bapur yn cael ei drosglwyddo rhwng staff yn ystod y sesiynau. Nid oedd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag asesu gwaith darllen ehangach neu waith ymchwil annibynnol yn perthyn i'r dull gweithredu hwn ychwaith, ac roedd pawb yn cael yr un chwarae teg o safbwynt deunyddiau a methodoleg. Dewiswyd deunyddiau a oedd ar gael eisoes mewn ysgolion i leihau'r baich gwaith ac oherwydd bod y deunyddiau'n gyfarwydd i athrawon yn barod. Defnyddiwyd testunau ffuglen a thestunau ffeithiol o gyn-bapurau profion asesu statudol Cyfnod Allweddol 2, sef *Saving Our Environment* yn yr achos hwn.

Er mai testunau'r profion a ddefnyddiwyd, cafodd y dull o gyflwyno'r cwestiynau a'r cynllun marcio eu haddasu. Cafwyd gwared â'r cynllun marcio rhifol er mwyn galluogi'r athrawon i ganolbwyntio ar sgiliau darllen ar Lefelau 3–5. Penderfynwyd peidio â defnyddio'r llyfryn ateb, a defnyddiwyd papur A4 cyffredin yn ei le er mwyn sicrhau bod llai o bapur yn cyrraedd y bwrdd cymedroli. Lleihawyd nifer y cwestiynau mewn achosion lle'r oedd sgil penodol yn cael ei dargedu dro ar ôl tro. Addaswyd rhai cwestiynau ac ychwanegwyd cwestiynau eraill er mwyn cynnig mwy o her i ddarllenwyr ar Lefel 4 a Lefel 5. Ni chafodd y tasgau eu hamseru, a chaniatawyd i'r dysgwyr weithio ar eu cyflymder rhesymol eu hunain.

### Deilliannau

- Gwelodd yr athrawon bod strwythur y dasg darllen a deall, a oedd wedi'i rhannu'n gamau, yn caniatáu iddyn nhw ganolbwyntio'n fanwl fel grŵp ar ymatebion penodol dysgwyr i gwestiynau penodol.
- Roedd hynny'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y cwestiynau a oedd yn gofyn am sgiliau o radd uwch (casgliadau cymhleth, arddull/bwriad awdur ac ati) lle'r oedd y cynllun marcio'n awgrymu canlyniadau posibl ond lle gallai'r athrawon ddefnyddio'u barn broffesiynol i wobrwyo unrhyw ateb dilys arall.
- Lle cafodd y tasgau eu defnyddio at ddibenion safoni ar draws cyfnodau, argymhellwyd y dylid eu defnyddio'n hwyr ym Mlwyddyn 6 ac yn ystod Blwyddyn 7 fel bod y deunyddiau'n dal i fod yn briodol i oedran y dysgwyr ac fel bod y dysgwyr yn dal i fod yn weddol debyg i'w gilydd o safbwynt aeddfedrwydd.

## Llunio barn ar ddiwedd cyfnod allweddol

Mae gofyn i athrawon lunio a chofnodi barn yn erbyn targedau cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol mewn rhai pynciau o fewn y cwricwlwm cenedlaethol ac adrodd yn ôl i rieni/gwarcheidwaid yn eu cylch. Yn ogystal, rhaid adrodd yn ôl yn flynyddol i rieni/gwarcheidwaid ynghylch y cyflawniad a wneir ym mhob pwnc o fewn y cwricwlwm cenedlaethol. Anfonir manylion a chanllawiau ynghylch trefniadau asesu ac adrodd statudol i ysgolion yn flynyddol, yn y llyfryn *Trefniadau asesu ac adrodd statudol* sy'n berthnasol i'r cyfnod allweddol priodol.

Mae sefydlu dealltwriaeth gyffredin o'r safonau a amlinellir yn y cwricwlwm cenedlaethol yn galluogi athrawon i lunio barn gyson ynghylch perfformiad pob dysgwr ar ddiwedd cyfnod allweddol.

O ganlyniad, bydd athrawon yn gallu:

- cadarnhau'u barn ynghylch perfformiad dysgwyr unigol ar sail gwybodaeth sy'n bodoli eisoes a chofnodion o berfformiad dysgwyr ar draws ystod o gyd-destunau a thros amser. Ni ddylai fod angen casglu rhagor o dystiolaeth i ategu'r farn a lunnir mewn perthynas â phob dysgwr, ac ni ddylai fod angen i athrawon asesu pob dysgwr o'r newydd
- nodi dysgwyr y mae'n anodd llunio barn glir mewn perthynas â nhw, e.e. oherwydd perfformiad anghyson. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd yr athrawon yn gweld y byddai'n ddefnyddiol adolygu gwaith y dysgwyr; cyfeirio at ddeunyddiau enghreifftio a portffolio safoni yr ysgol, yr adran neu'r grŵp clwstwr; neu ymgynghori ag athrawon eraill.

O fis Medi 2008 ymlaen, bydd gofynion yn dod i rym a fydd yn datgan bod yn rhaid cynnal digwyddiadau cymedroli mewn grwpiau clwstwr ar gyfer y pynciau craidd. Dylai'r gofynion hynny ategu ac atgyfnerthu asesiad athrawon a'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng CA2 a CA3 drwy:

- wella'r trefniadau presennol ar gyfer sicrhau cyswllt rhwng athrawon a throsglwyddo gwybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion
- datblygu lefel uwch o gytundeb ynghylch safonau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, a
- gwella hyder yn nibynadwyedd y data sy'n berthnasol i gyrhaeddiad disgyblion unigol.

Dylid pwysleisio bod rhaid i gymedroli gael ei seilio ar ystod o waith dysgwr unigol. Mae'r adran hon yn gweithio trwy'r prosesau sy'n ofynnol i gynnal digwyddiadau cymedroli effeithiol yn yr ysgol ac, yn arbennig, digwyddiadau cymedroli trawsgyfnod Cyfnod Allweddol 2/3, pan fydd barn 'cydfynd orau' yn cael ei llunio ar lefel cyrhaeddiad dysgwr unigol. Mae rhestr wirio i'w cael drosodd. Bydd penderfyniadau/paratodau yn cael eu dylanwadu gan y math o gyfarfodydd, hynny yw, cyfarfodydd yn yr ysgol neu gyfarfodydd trawsgyfnod.

## Rhestrï wirio i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cyfarfodydd cymedroli o fewn ysgolion ar draws cyfnodau i sicrhau barn ynglyn â chyflawniad ar ddiwedd cyfnod allweddol

Rôl y staff	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwy fydd yn arwain/cydlynu'r gwaith?</li> <li>• Pwy fydd yn ymwneud â chasglu ystod addas o waith gan ddysgwyr? Sut y bydd y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud?</li> </ul>
Cynnwys	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa bynciau fydd yn cael eu cynnwys?</li> <li>• Pa ddysgwyr fydd yn cael eu cynrychioli? Faint o ddysgwyr?</li> <li>• Pa ystod o lefelau fydd yn cael ei chynnwys?</li> <li>• A fydd rhai enghreifftiau o gyrhaeddiad y dysgwyr ar y ffin rhwng dwy lefel?</li> <li>• Sut y bydd yr ysgol/adran yn sicrhau bod gwaith y dysgwr yn caniatáu i farn gael ei llunio?</li> </ul>
Amserlen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth yw'r amserlen?</li> <li>• Pa mor aml y bydd y cyfarfodydd cymedroli'n cael eu cynnal? Pwy fydd yn penderfynu ar y rhesymeg?</li> <li>• A fydd y cyfarfodydd yn cael eu cysylltu'n benodol â throsglwyddo gwybodaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol?</li> </ul>
Ystod a natur y deunydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Faint o ddeunydd fydd yn cael ei ddefnyddio?</li> <li>• Pa ystod o dasgau/gweithgareddau fydd yn cael ei defnyddio?</li> </ul> <p>Bydd natur wahanol y pynciau a'r targedau cyrhaeddiad (a'r gofynion statudol yn CA2/3) yn dylanwadu ar y deunyddiau a allai gael eu cynnwys. Gellir cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o ddeunyddiau, e.e:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwaith ysgrifenedig y dysgwyr (wedi'i ysgrifennu â llaw neu wedi'i baratoi ar brosesydd geiriau, neu ddetholiadau), arteffactau, ffotograffau, neu dystiolaeth sain neu fideo o berfformiad/cyrhaeddiad</li> </ul>
Y math o sylwebaeth a'u hyd a'u lled	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pwy yw'r gynulleidfa/beth yw'r rhesymeg?</li> <li>• Faint o sylwadau neu nodiadau a pha fath o sylwebaeth neu nodiadau sydd eu hangen? e.e. fyddan nhw'n darparu: <ul style="list-style-type: none"> <li>- cyd-destun ar gyfer yr ystod o waith?</li> <li>- manylion ynghylch pa gymorth a ddarparwyd?</li> </ul> </li> </ul>
Gwybodaeth gynhaliol arall	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa eitemau eraill y dylid eu cynnwys gydag ystod o waith y dysgwr? e.e. a ddylid cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>- gwybodaeth ychwanegol lle bo hynny'n berthnasol, megis datganiad o anghenion addysgol?</li> </ul> </li> </ul>

Mae Atodiad 3 yn awgrymu rolau a chyfrifoldebau ar gyfer y personél allweddol sy'n gysylltiedig â'r broses gymedroli ar draws cyfnodau mewn grwpiau clwstwr.

## Astudiaethau achos: Cymedroli o fewn ysgolion

**Astudiaeth achos 6:** Datblygu ymhellach y broses o sicrhau asesiad athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2 trwy wneud gwaith cymedroli o fewn ysgolion (yn dilyn cyfarfodydd safoni blaenorol) yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

**Astudiaeth achos 7:** Ffocws ar y modd y mae ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cynllunio sesiynau cymedroli i godi safonau cyflawniad trwy ddysgu ac addysgu

**Astudiaeth achos 8:** Ffocws ar addysg gorfforol yng Nghyfnod Allweddol 3, gan ddefnyddio'r deunyddiau enghreifftio safonau (fideo a llyfryn) a gynhyrchwyd yn 2000

# 6 Astudiaeth achos

Datblygu ymhellach y broses o sicrhau asesiad athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2 trwy wneud gwaith cymedroli o fewn ysgolion (yn dilyn cyfarfodydd safoni blaenorol) yn y pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

## Y broses

Mae un AALI wedi cydweithio'n agos â'i ysgolion i ddatblygu ymhellach y broses o sicrhau asesiad athrawon yng Nghyfnod Allweddol 2, trwy gynnal cyfarfodydd cymedroli ar ôl i'r ysgolion hynny gyflawni gwaith safoni mewnol. Mae rhaglen flynyddol wedi'i datblygu sy'n cynnwys:

- sesiynau datblygu staff a gynhelir yn yr hydref i baratoi neu ddiweddarau portffolio safoni ysgolion ar gyfer pob pwnc craidd
- gwaith cymedroli proffiliau dysgwyr ar ddiwedd y flwyddyn lle bydd barn sy'n 'cydfynd orau' wedi'i llunio.

Mae'r AALI wedi awgrymu y dylai'r ddwy elfen hon gynnwys:

- enghreifftiau o waith dysgwyr sy'n dangos y nodweddion sy'n perthyn i lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol ym mhob un o'r targedau cyrhaeddiad, a sylwebaeth ynghylch y cyflawniad sydd i'w weld yn y gwaith
- detholiad o waith gan ddysgwyr unigol ar bob lefel. Ni fydd athrawon yn gallu dod i benderfyniad ynghylch y lefel gyffredinol y mae dysgwr unigol wedi'i chyrraedd mewn perthynas â chyrhaeddiad oni bai eu bod yn ystyried ystod o waith sydd wedi'i baratoi dros gyfnod o amser. Dylai'r sylwebaeth ddangos y nodweddion lefel sy'n perthyn i'r gwaith. Dros amser, bydd Lefelau 1–5 yn cael eu cynnwys yn y proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol. Fodd bynnag, bydd angen i bob barn a lunnir fod yn un sy'n 'cydfynd orau' i'r dysgwyr hynny. Os yw gwaith asesu wedi'i seilio ar waith gwranddo neu arsylwi, gellir copïo neu grynhoi nodiadau cryno o gofnod yr athro/athrawes.

## Deilliannau

- Mae portffolio safoni sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf wedi'i datblygu, ac mae proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol wedi'u datblygu sy'n cynnwys adran o waith dysgwyr a gymedrolwyd.
- Mae'r AALI wedi cynhyrchu model enghreifftiol o sut i drefnu cyfarfod cymedroli, ac agenda fanwl sy'n disgrifio'r broses.



# 7 Astudiaeth achos

Ffocws ar y modd y mae ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cynllunio sesiynau cymedroli i godi safonau cyflawniad trwy ddysgu ac addysgu

## Cefndir

Mae sesiynau cymedroli bob amser wedi bod yn rhan amlwg o nod cyson un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i godi safonau cyflawniad trwy waith addysgu a dysgu. Cafodd proffil dysgwr diwedd cyfnod allweddol o waith wedi'i gymedroli ei gynhyrchu gan yr ysgol am y tro cyntaf yn ôl ym 1993. Mae arferion wedi newid a datblygu yn ystod y blynyddoedd yn dilyn hynny. Mae proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol yn bodoli mewn pynciau craidd a phynciau sylfaen erbyn hyn, ond mae'r broses gymedroli'n parhau i fod yn rhan o waith cynllunio hirdymor yr ysgol. Y rheswm am hynny yw bod yr ysgol yn teimlo bod y broses gymedroli'r un mor bwysig â'r cynnyrch terfynol, os nad yn bwysicach na'r cynnyrch terfynol hyd yn oed, a'i bod hi'n hanfodol cael trafodaeth barhaus ynghylch safonau cyflawniad o fewn pynciau.

Ar hyd y blynyddoedd, mae'r ysgol wedi gweld bod sesiynau cymedroli'n esgor ar y manteision canlynol:

- Mae dealltwriaeth gynyddol well o ofynion y cwricwlwm cenedlaethol wedi datblygu o ganlyniad iddyn nhw.
- Mae staff profiadol yn rhannu'u syniadau a'u harbenigedd â staff llai profiadol.
- Mae disgwyliadau athrawon yn cael eu codi, a nodir y camau nesaf yn y broses ddysgu.
- Mae'r staff yn tyfu'n fwy hyderus wrth iddyn nhw wella'u dealltwriaeth.
- Mae arweinwyr pwnc yn cael cyfle ychwanegol i:
  - fonitro safonau cyflawniad o fewn eu pynciau a monitro'r modd y mae eu cynlluniau gwaith yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol
  - sicrhau bod eu cynlluniau gwaith a'r gweithgareddau sydd wedi'u paratoi yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol ac yn ysgogi dysgwyr i ddangos yr hyn maen nhw'n gallu'i wneud.

## Y broses

Er bod y broses gymedroli wedi ei hen sefydlu o fewn yr ysgol, mae'r ysgol yn dal i weld bod angen cynllunio'r broses yn ofalus. Mae'n cynnal rhaglen dreigl o sesiynau cymedroli dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd er mwyn sicrhau bod pob pwnc yn cael sylw. Mae'r cynllun yn hyblyg, a gellir ei addasu i gydfynd â'r canfyddiadau sy'n deillio o waith monitro pynciau a'r wybodaeth sy'n deillio o waith asesu ffurfiannol a chrynodol. Mae gan bob aelod o staff rôl i'w chwarae yn y broses, ac mae rhai o'r rolau hynny wedi'u diffinio'n fwy eglur na'r lleill.

- **Cydlynnydd Asesu, Cofnodi ac Adrodd (ACA)**

Fel rheol, mae'r rhaglen gymedroli'n rhan o gynllun datblygu'r cydlynnydd ACA. Mae'r cydlynnydd yn goruchwyllo'r broses, yn trefnu sesiynau ac yn olrhain cynnydd gan gysylltu a chydweithio'n agos â'r arweinwyr pwnc.

- **Arweinwyr pwnc**

Mae gan bob arweinydd pwnc rôl allweddol i'w chwarae yn y broses. Maen nhw'n casglu samplau o waith ac yn ymgysylltu â'r deunydd. Yna, maen nhw'n paratoi'r samplau ar ffurf pecynnau i'w cymedroli gan sicrhau na chaiff unrhyw ddisgyblion neu ddsbarthiadau eu henwi. Maen nhw'n arwain y sesiynau cymedroli gan rannu'u harbenigedd yn y pwnc. Maen nhw'n mynd yn eu blaen i gynllunio'r camau nesaf ar sail y wybodaeth a ddaeth i law ynghylch safonau cyflawniad a gwaith addysgu a dysgu o fewn eu pwnc. Mae'r arweinydd pwnc a'r cydlynnydd ACA wedi cyfarfod â'r ymgynghorydd pwnc i gynllunio sesiynau traws-gyfnod (sy'n ddatblygiad newydd), ac maen nhw wedi darparu deunydd i'w gymedroli o lyfrau disgyblion a phroffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol yr ysgol.

- **Athrawon dosbarth**

Mae athrawon dosbarth yn darparu'r deunydd sydd i'w gymedroli ar bob lefel. Maen nhw'n barod i drafod dysgwyr unigol mewn modd gwrthrychol, ac maen nhw'n barod i ystyried barn pobl eraill hefyd. Maen nhw'n barod i gyflwyno unrhyw newidiadau i arferion yng ngoleuni'r gwaith cymedroli a wneir.

- **Pennaeth/uwch dîm rheoli**

Y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yw'r hwylyswyr a'r sawl sy'n sicrhau bod digon o amser yn cael ei neilltuo ar gyfer y broses. Mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei gynllunio. Maen nhw'n rhoi cyfle i arweinwyr pwnc fynychu sesiynau cymedroli o fewn yr AALI, sesiynau cymedroli o fewn grwpiau clwstwr a sesiynau cymedroli ar draws cyfnodau.

Mae'r pennaeth wedi sicrhau bod systemau cyfathrebu wedi'u sefydlu rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, a chynhelir trafodaeth barhaus trwy gyfrwng cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r uwch dîm rheoli wedi sicrhau bod unrhyw wersi sy'n cael eu dysgu'n cael eu rhoi ar waith ar draws yr ysgol.

## Deilliannau

Ar hyd y blynyddoedd, mae'r ysgol wedi sylweddoli bod angen ystyried y materion canlynol yn ofalus er mwyn galluogi'r broses i fynd rhagddi yn effeithiol ac yn effeithlon:

- Mae cynnal hyd yn oed un sesiwn gymedroli o fewn yr ysgol yn arwain at oblygiadau o safbwynt adnoddau, megis amser staff a chostau llungopio.
- Mae gan yr ysgol dîm mawr o staff, ac mae angen i'r staff gael eu rhannu'n grwpiau bach i ddechrau i gymedroli gwaith yn effeithiol cyn dod ynghyd ar y diwedd i drafod eu canfyddiadau. Mae angen grwpio'r staff yn ofalus yn ystod y sesiynau hyn er mwyn sicrhau cydbwysedd o safbwynt y cyfnodau allweddol y maen nhw'n ymdrin â nhw a lefel eu profiad.
- Mae amser yn broblem fawr ar bob lefel, ac mae'n rhaid i waith llunio proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol gael ei ystyried yn brosiect hirdymor. Mae hynny'n wir hefyd ynghylch y broses o gynnal system sy'n defnyddio gwaith cymedroli fel modd i godi safonau.
- Mae'n bwysig hefyd bod yn hyblyg mewn perthynas â gwaith cynllunio hirdymor, oherwydd mae angen blaenoriaethu'r pynciau sydd angen ymdrin â nhw gan roi ystyriaeth i wybodaeth sy'n deillio o waith asesu, monitro canfyddiadau, neu flaenoriaethau'r Cynllun Gwella Ysgol.
- Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol yn cael eu cadw yn yr ystafell athrawon fel y gellir cael gafael arny'n nhw'n hawdd. Maen nhw'n cael eu defnyddio hefyd gyda llywodraethwyr yr ysgol wrth drafod gweithdrefnau asesu, a'r rhieni/gwarcheidwaid – yn enwedig wrth drafod asesiad athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol. Mae'r proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol yn cael eu hystyried yn gatalog hygyrch o safonau sy'n cael eu cadw yn yr ysgol ac y gall pawb eu defnyddio fel y bo angen.

I grynhoi, mae'r ysgol yn teimlo ei bod yn elwa o gael ffocws clir ar gymedroli, a gallai hyn dyfu'n nodwedd reolaidd yng ngwaith y grŵp clwstwr.



Ffocws ar addysg gorfforol yng Nghyfnod Allweddol 3, gan ddefnyddio'r deunyddiau enghreifftio safonau (fideo a llyfryn) a gynhyrchwyd yn 2000

## Y broses

Roedd ysgol gyfun wedi defnyddio ymgynghorydd addysg gorfforol i ddarparu cymorth ar gyfer deall a defnyddio'r safonau sy'n gysylltiedig ag addysg gorfforol yng Nghyfnod Allweddol 3. Roedd pob aelod o'r adran addysg gorfforol wedi mynychu'r gweithgaredd datblygiad proffesiynol hanner diwrnod ac wedi canolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio asesu crynodol Blwyddyn 9 yn yr ysgol.

Cafodd y fideo ei ddefnyddio i:

- drafod a llunio barn am safonau gwaith disgyblion a gafodd ei ddangos ar y fideo
- cymharu'r farn a luniwyd gan aelodau staff benyw a gwryw yn yr adran
- ysgogi trafodaeth am sut yr oedd barn 'cydfynd orau' derfynol yn cael ei llunio ar gyfer disgyblion gyda phroffiliau oedd yn arbennig o anghyson.

Er mwyn llunio barn ar ddiwedd Blwyddyn 9, roedd angen cadw tystiolaeth barhaus o gynnydd disgyblion yn ystod Cyfnod Allweddol 3. Roedd hyn yn arbennig o bwysig pan oedd aelodau staff yn cynnal gweithgareddau gwahanol gyda charfan o ddisgyblion, pan oedd athrawon dan hyfforddiant yn cael eu defnyddio a phan oedd newidiadau staff yn digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Roedd staff wedi nodi eu dulliau gwahanol o gofnodi gwybodaeth asesu, a oedd yn cynnwys:

- sylwadau mewn cofrestr yn ystod uned o waith
- barn am nodweddion y lefel a welwyd neu a glywyd yn gyson ar ddiwedd uned o waith
- ffilmio perfformiad disgyblion ar brydiau, yn arbennig ym Blwyddyn 9
- rhoi tic mewn blychau yn erbyn nodweddion y lefel yn gysylltiedig â gweithgareddau penodol
- cofio cyflawniadau disgyblion ond heb gofnodi unrhyw beth.

Mynegwyd pryder y gallai gwahanol ddulliau o gasglu gwybodaeth arwain at anghysondeb ymysg staff.

Roedd yr ymgynghorydd wedi rhoi proffiliau disgyblion newydd, heb eu gweld i bob aelod staff. Cawsant eu hannog i rannu eu syniadau ar goedd am y safonau roedden nhw'n teimlo oedd i'w gweld yn y proffiliau fideo. Mewn rhai achosion, rhoddwyd gwybodaeth ychwanegol am y timau a chafwyd trafodaeth am ddefnyddioldeb yr wybodaeth hon.

## Deilliannau

- Teimlai'r staff yn hyderus fod y rhan fwyaf ohonyn nhw'n dehongli'r safonau'n gywir ar ddiwedd yr ymarfer hwn.
- Rhan fwyaf llwyddiannus yr ymarfer oedd dehongli'r proffiliau heb eu gweld, a oedd wedi arwain at drafodaeth ddefnyddiol am nodweddion y lefel, a sut y cawsant eu dehongli gan y staff. Pan oedd y disgyblion yn ymgymryd â gweithgareddau athletaidd, gwelwyd bod staff yn dibynnu ar 'ganlyniadau' a oedd yn helpu i osod y safon yn y gweithgaredd ei hun, ond roedd dibyniaeth o'r fath yn golygu bod agweddau eraill ar nodweddion y lefel heb gael eu defnyddio bob amser, fel gallu disgybl i werthuso ei waith ei hun a gwaith pobl eraill.
- Nid oedd llunio barn cydfynd orau mor anodd ag yr oedd staff wedi meddwl y byddai yn wreiddiol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw fformiwla. Roedd staff wedi ystyried y proffil cyfan, gan sicrhau bod pob agwedd ar waith y disgybl yn cael ei hystyried, nid yn unig y sgiliau perfformio. Darllenwyd y disgrifiadau lefel cyfagos i'r un yr oedden nhw'n teimlo allai fod yn gymwys. Roedd trafodaethau pellach wedi'u sicrhau bod 'ystod' yn parhau o fewn lefel, er enghraifft, gallai Lefel 4 gryf gynnwys nodweddion Lefel 5, a gallai Lefel 4 wannach gynnwys rhai o nodweddion Lefel 3.
- Penderfynwyd y dylai'r holl staff sy'n gyfrifol am uned o waith wneud sylwebaeth fyr yn eu cofrestr am gyflawniadau pob disgybl erbyn diwedd yr uned honno. Dylai'r sylwebaeth gyfeirio'n benodol at agweddau ar nodweddion y lefel yng nghyd-destun y gweithgaredd.
- Un canlyniad pwysig o'r gweithgaredd hwn oedd sylweddoli er nad oedd disgybl wedi dangos sgiliau perfformio cadarn mewn gweithgaredd, mae'n bosibl bod ganddo/ganddi wybodaeth gadarn iawn, sgiliau cyfathrebu cadarn, a sgiliau arsylwi a gwerthuso da. Daeth yn amlwg nad oedd disgyblion yn cael eu cydnabod am eu gwaith cyffredinol mewn addysg gorfforol mewn rhai achosion, ac efallai eu bod wedi cyrraedd lefel uwch, neu lefel cyrhaeddiad fwy sicr na'r hyn oedd yn cael ei nodi ar ddiwedd y cyfnod allweddol.
- Penderfynwyd ymgymryd â gwaith dadansoddi proffiliau disgyblion heb eu gweld bob dwy flynedd, neu'n fwy aml os oedd trosiant staff yn arbennig o uchel mewn unrhyw flwyddyn arbennig.

## Astudiaethau achos: Cymedroli o fewn grwpiau clwstwr

**Astudiaeth achos 9:** Ffocws ar Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth

**Astudiaeth achos 10:** Model a awgrymir ar gyfer diwrnod cymedroli ar draws Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, sy'n canolbwyntio ar waith dysgwyr unigol – y cyfranogwyr a deilliannau posibl (yn seiliedig ar astudiaeth beilot gan yr AALI)

**Astudiaeth achos 11:** Ffocws ar sut y mae clwstwr o ysgolion cyfrwng Saesneg yn datblygu proses er mwyn helpu i lunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn Cymraeg ail iaith

# 9 Astudiaeth achos

## Ffocws ar Saesneg, Cymraeg mathemateg a gwyddoniaeth

### Y broses

Cynhaliodd yr AALL gyfarfodydd cymedroli ar ddiwedd cyfnod allweddol mewn perthynas â'r pedwar pwnc craidd, sef Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Cynhaliwyd y cyfarfodydd cymedroli dros gyfnod o hanner diwrnod, a daeth yr athrawon â llyfrau gwaith y dysgwyr gyda nhw i'r cyfarfodydd. Cafodd y prosiect ei drefnu a'i gydlynu gan un o ymgynghorwyr pwnc yr AALL, a oedd â chyfrifoldeb penodol am asesu. Roedd pob grŵp pwnc yn dod o'r un grŵp clwstwr.

Roedd dau athro o bob ysgol gynradd (sef athro/athrawes Blwyddyn 6 a'r arweinydd pwnc neu'r cydlynnydd asesu fel rheol) a dau gynrychiolydd o'r ysgol uwchradd (sef pennaeth adran y pwnc ac athro/athrawes Cyfnod Allweddol 3 fel rheol) yn bresennol ym mhob cyfarfod cymedroli. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu harwain gan un o athrawon ymgynghorol yr AALL ar gyfer y pwnc hwnnw. I ddechrau, bu athro ymgynghorol yr AALL yn arwain sesiwn hyfforddi fer. Bu'r sesiwn yn canolbwyntio ar y gofynion ac ar broffiliau dysgwyr ddiwedd cyfnod allweddol yr AALL fel ffynhonnell o ddeunydd enghreifftio.


Yn dilyn hynny, cyfnewidiodd yr athrawon lyfrau gwaith o'u hysgolion eu hunain â chydweithwyr o ysgolion eraill. Yna, aethant ati i lunio barn ynghylch nifer o ddarnau o waith o fewn y llyfrau hynny cyn cael gwybod beth oedd barn yr athro/athrawes dosbarth perthnasol. Mewn achosion lle'r oedd gwahaniaeth barn, cafwyd trafodaeth bellach â'r grŵp ehangach.

### Deilliannau

- Cynhaliodd yr AALL sesiynau cymedroli â'i holl grwpiau clwstwr. Mae cynlluniau eisoes ar waith i gynnal sesiynau tebyg a fydd yn canolbwyntio ar ddysgwyr sydd ar y ffin rhwng dwy lefel.
- Roedd defnyddio meini prawf asesu manwl ar gyfer darnau o waith/tasgau penodol o gymorth i'r athrawon safoni gwaith yn fwy effeithiol. Ystyriwyd bod cynlluniau marcio o broffion Cyfnod Allweddol 2/3 blaenorol mewn Saesneg a Chymraeg yn ddeunyddiau cyfeirio hynod o ddefnyddiol.
- Nododd yr athrawon broblemau a oedd yn ymwneud â chofnodi gwybodaeth am ddarnau o waith, er enghraifft, i ba raddau oedd yr athrawon wedi ymyrryd a hefyd yr angen i roi peth gwybodaeth gyd-destunol ynghylch darnau penodol o waith a allai gael eu defnyddio at ddibenion cymedroli.
- Wrth ddefnyddio llyfrau gwaith y dysgwyr, llwyddwyd i sicrhau bod cyn lleied o waith gweinyddol ag sy'n bosibl.

# 10 Astudiaeth achos

Model a awgrymir ar gyfer diwrnod cymedroli ar draws Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, sy'n canolbwyntio ar waith dysgwyr unigol – y cyfranogwyr a deilliannau posibl (yn seiliedig ar astudiaeth beilot gan yr AALI). Gall ysgolion arbennig addasu'r model yma.





# 11

## Astudiaeth achos

Ffocws ar sut y mae clwstwr o ysgolion cyfrwng Saesneg yn datblygu proses er mwyn helpu llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn Cymraeg ail iaith

### Cefndir

Mewn un clwstwr o ysgolion cynradd sydd i gyd yn trosglwyddo disgyblion i'r un ysgol uwchradd, darparwyd pecyn o adnoddau/gweithgareddau'r AALI i'w cyflwyno i'r disgyblion yn ystod hanner tymor olaf Blwyddyn 6. Parhawyd â'r pecyn yn yr ysgol uwchradd yn ystod hanner tymor cyntaf Blwyddyn 7. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion adolygu gwaith blaenorol ac i'r athrawon ddod i adnabod eu disgyblion a'u cyflawniad yn well. Er bod hyn yn galluogi'r ysgol uwchradd i dderbyn enghreifftiau o waith yr holl ddisgyblion, nid oedd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at lefelau. Gan y bydd y broses o lunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn statudol yn y flwyddyn ysgol 2009/10, penderfynwyd adolygu'r drefn o drosglwyddo gwybodaeth i bwrpas pontio i ymgorffori hyn.

### Y broses

Penderfynwyd dilyn y drefn ganlynol:

- yr athrawes fro oedd yn gyfrifol am y clwstwr i drefnu nifer o gyfarfodydd a pharatoi agenda
- byddai'r pennaeth adran a'r athrawes pontio uwchradd, a oedd yn digwydd bod yn addysgu Cymraeg ail iaith, yn mynychu'r cyfarfodydd ar ran yr ysgol uwchradd
- y cydlynnydd Cymraeg ail iaith a'r athro/athrawes oedd yn gyfrifol am addysgu'r pwnc i Flwyddyn 6 ym mhob un o ysgolion y clwstwr yn mynychu'r cyfarfodydd ar ran yr ysgolion cynradd,.

Yn y cyfarfod cyntaf gofynnwyd i bawb ddod ag enghreifftiau o waith er mwyn cymharu nodweddion lefelau. Gwelwyd bod rhai gwahaniaethau rhwng disgwyliadau gwahanol ysgolion a rhwng y cynradd a'r uwchradd. Sylweddolwyd hefyd bod cryn wahaniaeth o ran ansawdd, faint, a'r math o dystiolaeth lafar oedd ar gael gan yr ysgolion cynradd gyda rhai wedi recordio neu ffilmio llawer o weithgareddau ac eraill yn cadw cofnod ysgrifenedig yn unig. Wrth gynllunio ar gyfer gweddill y gyfres o gyfarfodydd, penderfynwyd:

- canolbwyntio i ddechrau ar y lefelau lle roedd trwch y boblogaeth, sef Lefelau 2 a 3
- ystyried portffolios dysgwyr unigol
- gofyn i'r cynrychiolwyr cynradd ddod â gwaith o becyn addysgu'r sir ar gyfer dau ddisgybl i'r cyfarfod nesaf.

Pan gynhaliwyd y cyfarfod sylwyd bod tueddiad gan athrawon uwchradd i arwain a phennu lefel. Roedd tueddiad hefyd i lefelu darnau unigol o waith a bu raid i'r athrawes fro eu hatgoffa'n gyson i edrych ar ystod o weithgareddau. Wrth weithio fel hyn sylwyd nad oedd digon o amrywiaeth o weithgareddau yn y pecynnau er bod rhai ohonyn nhw'n swmpus iawn. Y drafferth oedd bod gormod o'r un math o weithgareddau yn y pecynnau, e.e. posterï, copïo brawddegau o dan lluniau. Hefyd cafwyd rhai anawsterau wrth geisio lefelu plant gan fod yr athrawon yn poeni am faint o help a gafwyd, a fu drafftio, prinder gwybodaeth gyd-destunol ac ati. Fodd bynnag, cytunai pawb fod cydweithio i bennu lefel yn hwyluso'r gwaith yn fawr iawn ac yn rhoi hyder iddyn nhw yn y gwaith

## Deilliannau

Erbyn diwedd y gyfres o gyfarfodydd, roedd gan yr athrawon unigol well dealltwriaeth o nodweddion y lefelau. Anogwyd yr athrawon i ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth iddyn nhw gynllunio'r addysgu a thrwy dargedu gwendidau'r disgyblion, roedden nhw'n gobeithio y bydden nhw'n codi safonau i'r dyfodol. Nododd yr Awdurdod Addysg Lleol hefyd nifer o faterion i roi sylw iddyn nhw mewn hyfforddiant sirol i'r dyfodol. Nodwyd bod angen:

- ystyried sut i gofnodi Llafaredd er mwyn cael mwy o gysondeb – ystyried opsiynau, e.e. cofnod ysgrifenedig, ffilmio, recordio ac ati
- datblygu portffolio i ddibenion safoni. Penderfynu gwneud hynny fel clwstwr yn hytrach na bod athrawon yn gweithio'n unigol yn eu hysgolion
- annog athrawon i gynnwys mwy o amrywiaeth o dasgau yn eu pecynnau er mwyn arddangos ehangder y rhaglenni astudio'n llawn
- creu proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol ar gyfer y clwstwr cynradd gyda rhai enghreifftiau yn gyffredin i'r ysgol uwchradd hefyd.

## Pontio

O ganlyniad i ddeddfwriaeth yn Neddf Addysg 2002 sy'n berthnasol i Gymru'n unig, mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd a gynhelir a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lunio cynlluniau ar y cyd i hwyluso'r broses bontio ar gyfer disgyblion rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Rhaid i gynlluniau pontio gael eu cynhyrchu erbyn mis Medi 2007 i gynorthwyo'r disgyblion hynny ym Mlwyddyn 6 a fydd yn symud i'r ysgol uwchradd ym mis Medi 2008. Mae *Canllawiau ar baratoi cynlluniau pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3* (Cylchlythyr Rhif 30 Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Medi 2006) yn ddogfen sydd wedi'i dosbarthu i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, AALLau a chyrrff eraill a allai fod â diddordeb (gweler [www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau](http://www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau)).

Bydd ysgolion yn ymwybodol o'r ffaith bod yn rhaid i gynnwys craidd y cynlluniau pontio amlinellu sut y bydd ysgolion uwchradd a chynradd yn cydweithio â'i gilydd i fynd i'r afael â'r broses o sicrhau cysondeb wrth asesu.

Dylai'r cynllun grynhoi gwybodaeth am weithgarwch cyfredol a pharhaus a wneir i wella cysondeb wrth asesu, a dylai nodi unrhyw feysydd y mae angen eu gwella. Bydd angen cytuno ar flaenoriaethau mewn perthynas â meysydd y mae angen eu gwella. Felly, gallai'r cynllun grynhoi meysydd allweddol y mae angen eu gwella dros y cyfnod o dair blynedd, a gallai gynnwys cynllun prosiect manylach ar ffurf atodiad ar gyfer y meysydd penodol y dylid ymdrin â nhw yn ystod 2007/08.

Mae'r *Canllawiau ar baratoi cynlluniau pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3* yn cynnwys y cwestiynau canlynol i helpu i nodi blaenoriaethau:

- Pa gyfleoedd a roddir i athrawon y ddau gyfnod ddod at ei gilydd i drafod ac asesu gwaith dysgwyr fel y ceir cyd-ddealltwriaeth o safonau a dilyniant?
- Faint o arferion cyffredin a geir yn strategaethau asesu'r ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo?
- Pa wybodaeth am gyflawniad cyffredinol disgyblion sy'n cael ei rhannu ar hyn o bryd ar draws y clwstwr ysgolion?
- Pa wybodaeth am gyflawniad disgyblion unigol sy'n mynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar adeg trosglwyddo'r disgyblion?
- Sut y gellir defnyddio data yn fwy effeithiol yn yr ysgol uwchradd i hwyluso'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm, ac i bennu targedau ar gyfer pynciau, adrannau, dosbarthiadau a disgyblion unigol?

## Monitro a gwerthuso

Yn rhan o'r trefniadau statudol newydd ar gyfer asesiad athrawon, bydd angen i ysgolion sicrhau bod eu barn ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr unigol yn parhau i fod yn gyson ac yn gywir a bod eu trefniadau ar gyfer asesu dysgwyr yn effeithiol ac yn hwylus. Gall aelod o dîm rheoli'r ysgol a/neu'r cydlynnydd asesu, y cydlynnydd cwricwlwm neu bennaeth adran oruchwylio'r gwaith hwn (gweler Atodiad 3).

O wanwyn 2008 ymlaen, bydd gan yr ysgolion y Gorchmynion a'r fframweithiau cwricwlwm diwygiedig a'r deunyddiau enghreifftio safonau sy'n gysylltiedig â nhw. Gydag amser, dylai'r deunyddiau newydd hyn helpu – yn unigol ac mewn trafodaethau grŵp – i gadarnhau eu dealltwriaeth a'u defnydd o'r safonau. Lle y bo'n briodol, bydd portffolio safoni a phroffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol yr ysgol, yr adran neu'r clwstwr yn cael eu diwygio i gyfateb â disgrifiadau lefel a deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig.

I sicrhau hwylustod, dylai'r gwaith monitro a gwerthuso a wneir gan ysgol mewn perthynas â'i dulliau gweithredu:

- gael ei osod yng nghyd-destun y nodau a'r amcanion ehangach a amlinellir yn y cynllun datblygu ysgol a'r cynllun pontio
- cynnwys trafodaethau ag athrawon ynghylch natur a hyd a lled y gwaith monitro
- canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o feysydd bob blwyddyn.

Bydd y dulliau a ddefnyddir i fonitro cysondeb gwaith asesu o fewn ysgol neu adran yn cynnwys:

- mynychu cyfarfodydd ar gyfer yr ysgol neu'r clwstwr i sefydlu dealltwriaeth gyffredin o safonau
- cymharu dehongliad yr ysgol o safonau â phwyntiau cyfeirio allanol, megis deunyddiau enghreifftio ACCAC/APADGOS
- cymedroli sampl o farn athrawon ynghylch perfformiad dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol yn erbyn dehongliadau o safonau y cytunwyd arny'n nhw a phwyntiau cyfeirio allanol.

Dylai gwaith monitro arwain at werthusiad o effeithiolrwydd a hwylustod y dulliau a ddefnyddir gan ysgol i sicrhau cysondeb. Yna, gall yr ysgol bennu'r camau gweithredu y mae angen iddi eu cymryd i atgyfnerthu a gwella'i dulliau.

# Atodiad 1: Y berthynas rhwng Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, disgrifiadau lefel a chymwysterau

**Oedran 3**

**7**

**14 Cymwysterau**

Llwybrau Dysgu		
Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 1 Cwricwlwm Cenedlaethol	Cyn Mynediad
Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 2 Cwricwlwm Cenedlaethol	
Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen	Deilliant 3 Cwricwlwm Cenedlaethol	
Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen	Lefel 1 Cwricwlwm Cenedlaethol	Mynediad 1
Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen	Lefel 2 Cwricwlwm Cenedlaethol	Mynediad 2
Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen	Lefel 3 Cwricwlwm Cenedlaethol	Mynediad 3
	Lefel 4 Cwricwlwm Cenedlaethol	TGAU
	Lefel 5 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Lefel 6 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Lefel 7 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Lefel 8 Cwricwlwm Cenedlaethol	
	Perfformiad Eithriadol	

## Atodiad 2: Y defnydd o brofion sydd wedi'u safoni a'u cyfyngiadau

### Cyfyngiadau profion sydd wedi'u safoni

Nid oes modd i brofion ar sail normau ddarparu'n hawdd yr asesiadau manwl hynny y mae eu hangen i ddylanwadu ar ddysgu ac addysgu ar draws ehangder y cwricwlwm.

Mewn gwirionedd maen nhw wedi'u cyfyngu gan eu cynllun trylwyr. Rhaid i brofion ar sail normau gynnwys eitemau y gellir eu gweinyddu a'u sgorio mewn ffordd safonol. Rhaid i'r cynllun marcio fod yn glir ac yn ddiamwys er mwyn sicrhau unffurfiaeth wrth lunio ymateb cywir. Ni ddylai amser gweinyddu'r prawf fod yn rhy hir. Rhaid i eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y prawf gael eu graddio o ran anhawster er mwyn iddyn nhw fod yn addas ar gyfer dysgwyr o ystod o alluoedd a chefnidiroedd.

O ganlyniad, cydnabyddir bod rhai mathau o wybodaeth a sgiliau yn fwy addas ar gyfer y math hwn o brofi nag eraill. Bydd eitemau prawf yn tueddu i gynnwys sgiliau sylfaenol ac nid ydynt yn asesu meysydd mwy cymhleth. Bydd eitemau sy'n cynnwys sgiliau uwch yn tueddu i ddangos lefelau is o ddibynadwyaeth, yn enwedig o ran marcio ymatebion, ac felly maen nhw'n cael eu hosgoi yn gyffredinol. Mae'n bosibl nad yw hyn mor wir am brofion a gynlluniwyd yn fwy diweddar.

Mae rhai yn credu fod hon yn feirniadaeth sylfaenol o rai profion ac maen nhw'n cwestiynu dilysrwydd eu gwerth a'u cynnwys. Mae eraill, eto wrth dynnu sylw at natur gyfyngol yr asesu, yn pwysleisio nad yw'r elfennau sydd wedi'u cynnwys yn gysylltiedig fel arfer â gofynion ehangach gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol. Lluniwyd profion ar sail normau hynach cyn y rheoliadau statudol cyfredol ac nid yw pob un ohonyn nhw wedi cael eu diweddarau. Mae geirfa yn dyddio a gall defnyddio rhai ymadroddion mewn rhai profion ymddangos yn anacronig ac yn ddieithr i'r darllenydd modern.

Rhaid cydnabod y mater o amrywiaeth ym mherfformiad y dysgwr hefyd, yn arbennig wrth ddelio â dysgwyr ifanc. Er enghraifft, gallai dysgwyr fod yn anhwylyd pan fyddan nhw'n sefyll y prawf; gallen nhw fod yn nerfus iawn hefyd, a allai effeithio ar eu perfformiad. At hynny, gall y profion mwyaf dibynadwy amcangyfrif sgorau safonedig yn unig o fewn rhai terfynau hyder. Nid yw pob llawlyfr yn cyfeirio at yr agwedd hon.

## Y defnydd o'r profion safonedig

Gan dderbyn y cyfyngiadau hyn, dylai ysgolion gydnabod y defnydd posibl o wybodaeth ddiuedd ar sail normau a ddarperir gan brofion safonedig wrth asesu sgiliau arbennig unigolion neu grwpiau, o fewn amserlen y penderfynwyd arni ymlaen llaw.

Wrth ddewis a defnyddio'r profion safonedig, dylai ysgolion wneud hynny gyda dealltwriaeth glir o'u lle o fewn strwythur asesu cyffredinol.

## Y defnydd priodol o brofion sydd wedi'u safoni a'r wybodaeth sy'n deillio ohonyn nhw

Wrth wneud penderfyniadau priodol ynghylch defnyddio profion sydd wedi'u safoni a'r wybodaeth sy'n deillio ohonyn nhw, dylai ysgolion asesu'n feirniadol eu gwerth a chwestiynu eu cynllun.

Dylen nhw ysgogi dadlau am:

- y dewis
- y diben
- yr wybodaeth a ddarparwyd a'r defnydd ohoni o fewn a'r tu allan i'r ysgol
- yr amser a hwylustod gweinyddu'r profion
- y gost.

Bydd cwestiynau sy'n ymwneud â gwerth y profion yn cynnwys y canlynol:

- Ydy'r prawf yn rhan o bolisi asesu ysgol gyfan?
- Ydy'r dewis o brawf yn un hanesyddol yn bennaf? Oes angen ailasesu'r polisi profi?
- Pa ddiben gwreiddiol oedd gan yr ysgol mewn golwg pan ddewiswyd y prawf? Ydy'r prawf yn darparu'r data gofynnol? Ydy'r holl wybodaeth sy'n deillio o'r prawf yn cael ei defnyddio?
- Ydy'r prawf yn addas i'r grŵp oedran? Ydy'r eirfa yn addas i'r garfan sy'n cael ei phrofi ac i ddysgwyr o bob cefndir ethnig?
- Ydy'r prawf yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws yr ysgol? Pryd gafwyd HMS/DPP diwethaf i sicrhau cysondeb wrth weinyddu a sgorio'r profion?
- Ydy'r prawf yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol neu dim ond yn cadarnhau asesiadau athrawon? Oes unrhyw ddiben defnyddio'r prawf?

- Ydy'r canlyniadau'n cael eu defnyddio mewn ffordd gyfyngedig, megis adrodd i rieni/gwarcheidwaid, neu ydyn nhw'n cael eu defnyddio fel sail ar gyfer dysgu ac addysgu? Beth oedd y diben gwreiddiol?
- Ydy'r amser a'r gost sy'n gysylltiedig â'r profion yn briodol?
- Ydy'r corff llywodraethu'n ymwybodol o'r defnydd ohonyn nhw? Ydy hi'n bosibl defnyddio'r deilliannau i roi gwybod i lywodraethwyr am safonau cyflawniad mewn ysgolion ar adeg arbennig a thros gyfnod o amser?

Bydd cwestiynau sy'n ymwneud â chynllun y prawf yn cynnwys y canlynol:

- Ydy prawf i unigolion neu grwpiau yn fwy priodol?
- Ydy'r prawf wedi'i gynllunio at y diben a nodwyd gan yr ysgol?
- Pryd cafodd y prawf ei gynllunio a'i safoni?
- Ydy'r cyfarwyddiadau ar gyfer ei weinyddu a'i sgorio yn glir ac yn ddiamwys?
- Faint o amser gaiff ei dreulio yn marcio ac yn sgorio'r prawf? Ydy hyn yn briodol?
- Ydy'r prawf yn ddibynadwy?
- Ydy'r prawf yn ddilys?
- Beth yw'r terfynau hyder?



## Atodiad 3: Rolau a chyfrifoldebau – gwaith cymedroli o fewn clwstwr

### Rôl y pennaeth

- Bod yn gyfrifol ar lefel strategol am arwain, a sicrhau bod ysgolion yn gweithredu trefniadau ar gyfer mynd ati o fewn y clwstwr i gymedroli barn yr asesiad athrawon.

Yn ymarferol, mae hynny'n golygu:

- Cyflwyno trefniadau i hwyluso gwaith cymedroli effeithiol ar draws cyfnodau. Gallai hynny gynnwys penodi cydlynnydd clwstwr/pontio sydd â disgrifiad swydd priodol.
- Helpu i ddatblygu cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer y clwstwr.
- Sicrhau bod athrawon yn cael digon o amser i'w galluogi i gyflawni'r elfennau sy'n gysylltiedig â'r broses gymedroli'n effeithiol, e.e. casglu samplau o waith dysgwyr unigol.
- Sicrhau bod y broses gymedroli ar draws cyfnodau'n cael ei gwerthuso yn ystod proses hunanwella'r ysgol mewn perthynas ag asesu, cofnodi ac adrodd yn ôl.
- Sicrhau bod y cryfderau a'r diffygion a nodir yn ystod ymarfer hunanwerthuso'r ysgol yn cael eu defnyddio i wella ansawdd y cwricwlwm, y gwaith dysgu ac addysgu, a'r gwaith arwain a rheoli.

### Rôl cydlynnydd y clwstwr gyda chymorth gan y pennaeth

- Arwain a rheoli ymarfer cymedroli'r clwstwr.
- Sefydlu a chynnal sianelau cyfathrebu trwy gydol yr ymarfer cymedroli.
- Sicrhau nad yw'r ymarfer cymedroli'n colli momentwm, trwy gysylltu'n rheolaidd â'r sawl sy'n cymryd rhan ynddo.
- Trefnu a rheoli sesiwn gymedroli'r clwstwr.

Yn ymarferol, mae hynny'n golygu:

- Cysylltu ag aelodau'r grŵp clwstwr ar y dechrau, e.e. arweinwyr pwnc y cwricwlwm ac athrawon Blwyddyn 6 a 7.
- Cydlynu cyfarfod/ydd y grŵp clwstwr i benderfynu ar hyd a lled yr ymarfer cymedroli a'r bobl a ddylai gael eu cynnwys ynddo, a nodi dyddiadau allweddol a chanlyniadau'r ymarfer cymedroli.
- Rhannu manylion ynghylch yr ymarfer, e.e. canlyniadau'r cyfarfod cyntaf – rhestr o fanylion cyswllt, amserlen, manylion y gwaith y dylid ei gyflwyno i'w gymedroli.

- Cydweithio ag arweinwyr pwnc y cwricwlwm mewn perthynas â chasglu, crynhoi ac ailddosbarthu samplau o waith gan ddysgwyr unigol.
- Trefnu lleoliad ar gyfer sesiwn gymedroli'r clwstwr.
- Paratoi cynllun o'r sesiwn gymedroli ar gyfer y cyfranogwyr.
- Cydlynu deilliannau'r sesiwn, e.e. portffolios dysgwyr diwedd cyfnod allweddol ar gyfer y clwstwr.

## **Rôl y pennaeth adran/arweinydd cwricwlwm pwnc**

- Cydweithio'n agos â chydweithwyr o fewn y clwstwr a chydlynnydd y clwstwr.

Yn ymarferol, mae hynny'n golygu:

- Nodi manylion ynghylch samplau o waith, meini prawf asesu a ffurflenni nodiadau sydd i'w defnyddio ar gyfer yr ymarfer cymedroli.
- Casglu samplau o waith dysgwyr unigol oddi wrth gydweithwyr a rhoi trefn arnyn nhw. Gallai hynny gynnwys casglu, crynhoi ac ailddosbarthu'r samplau sy'n dod i law oddi wrth ysgolion o fewn y clwstwr cyn i sesiwn gymedroli'r clwstwr gael ei chynnal.
- Trefnu ymarfer cymedroli o fewn yr ysgol â chydweithwyr cyn i sesiwn gymedroli'r clwstwr gael ei chynnal.
- Cefnogi cydweithwyr nad ydynt yn arbenigo mewn pwnc arbennig yn ystod y broses gymedroli.
- Defnyddio ffurflen nodiadau y cytunwyd arni i gofnodi'r rhesymau pam y mae lefel benodol wedi'i dyfarnu i ddysgwr.
- Cyfrannu i ddeilliannau'r ymarfer cymedroli, e.e. cynhyrchu proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol ar gyfer y clwstwr sy'n ymdrin â phwnc penodol.

## **Rôl athro/athrawes Blwyddyn 6/Blwyddyn 7**

- Cydweithio ag arweinydd pwnc y cwricwlwm neu'r pennaeth adran.

Yn ymarferol, mae hynny'n golygu:

- Rhoi samplau priodol o waith dysgwr unigol i arweinwyr pwnc y cwricwlwm.
- Cymryd rhan mewn gwaith cymedroli o fewn yr ysgol gyda chydweithwyr cyn i sesiwn gymedroli'r clwstwr gael ei chynnal.
- Defnyddio profiad proffesiynol a rhannu arbenigedd mewn perthynas â'r ystafell ddsbarth wrth nodi nodweddion lefel a welir mewn samplau o waith.
- Rhoi rhesymau clir i egluro pam y mae'n dyfarnu lefel benodol i sampl o waith dysgwr unigol.
- Cyfrannu i ddeilliannau'r ymarfer cymedroli, e.e. cynhyrchu proffiliau dysgwyr diwedd cyfnod allweddol ar gyfer y clwstwr sy'n ymdrin â phwnc penodol.

## Atodiad 4: Deunyddiau cymorth

### Pontio

Cynhyrchodd ACCAC lyfryn o'r enw *Pontio'r Bwlch* sy'n rhoi canllawiau i ysgolion cynradd ac uwchradd ynghylch datblygu a defnyddio unedau i hybu gwaith pontio effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 a chanllawiau ynghylch sut i sicrhau gwell parhad mewn addysgu a dysgu yn ystod y cyfnod pontio. Dosbarthwyd y llyfryn hwn i ysgolion ym mis Tachwedd 2004.

Mae cyhoeddiadau perthnasol eraill yn cynnwys:

*Codi Safonau: Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, BBC Cymru/Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (pecyn fideo sydd ar gael gan BBC Cymru)

*Symud Ymlaen ... Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (ar gael gan Estyn)

*Symud Ymlaen ... Gwella Dysgu, Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3*, Estyn/Llywodraeth Cynulliad Cymru/ACCAC, 2004 (cyhoeddiad ar wefan Estyn)

*Newidiadau mewn Addysgu a Dysgu a hyrwyddir gan y rhaglen Anelu at Ragoriaeth 2005-06*, sy'n cynnwys pennod ar bontio lle disgrifir peth arfer cyfredol (cyhoeddiad ar wefan Estyn, 2006)

*Arolwg o'r Gymraeg fel Ail Iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a'r Cyfnod Pontio*, Estyn 2004

*Adolygiad o gyfraniad y rhaglen Anelu at Ragoriaeth at godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 3*, sy'n cynnwys adran ar bontio hefyd (Estyn, 2006).

## Enghreifftio safonau

Cynhyrchwyd y deunyddiau canlynol gan ACCAC cyn i'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (AADGOS) gael ei chreu ym mis Ebrill 2006. Rhestrir y deunyddiau hyn am eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac am eu bod yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol fel deunyddiau ar gyfer asesiad athrawon:

*Optional Assessment Materials for English at Key Stage 2*, ACCAC, 1999

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2002

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2003

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Mathemateg Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2003

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2001

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Dylunio a Thechnoleg Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2002

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2002

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Hanes Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2002

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Daearyddiaeth Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2001

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Celf Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2001

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cerddoriaeth Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2002

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 2*, ACCAC, 2004

*Optional Assessment Materials for English at Key Stage 3*, ACCAC, 2000

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2003*

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Cymraeg Ail Iaith Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2000*

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Mathemateg Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2003*

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2001*

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Hanes, Daearyddiaeth a Dylunio a Thechnoleg, Lefelau 1–2, Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2001*

*Deunyddiau Asesu Dewisol ar gyfer Addysg Grefyddol, Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2004*

I helpu athrawon i lunio barn ynghylch cyrhaeddiad dysgwyr unigol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol, cyhoeddodd ACCAC y deunyddiau canlynol:

*Celf: Enghreifftio Safonau mewn Celf: Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2000*

*Cerddoriaeth: Enghreifftio Safonau mewn Cerddoriaeth: Cyfnod Allweddol 3, ACCAC, 2000*

*Addysg Gorfforol: Enghreifftio Safonau mewn Addysg Gorfforol: Cyfnodau Allweddol 1–3, ACCAC, 2000.*

Aiddosbarthwyd CD, sy'n cynnwys deunydd enghreifftio safonau yn y pynciau craidd ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1–3 (a gynhyrchwyd yn wreiddiol ym 1995) i ysgolion yn ystod tymor yr haf 2005.

## Cydnabyddiaeth

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac ymgynghorwyr am eu help wrth gynhyrchu'r deunyddiau hyn.